Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon 2017-18

Mawrth 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@assembly.wales**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon 2017-18

Mawrth 2019

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mohammad Asghar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Adam Price AC**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Vikki Howells AM**
Llafur Cymru
Cwm Cynon

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ........ 5**

**Argymhellion ........ 7**

**1. Cyflwyniad ........ 13**

Y Themâu Allweddol ........ 13

**2. Comisiwn y Cynulliad ........ 19**

Y cefndir ........ 19

Perfformiad Ariannol a Gweithredol ........ 19

Staffio ........ 22

Cynaliadwyedd ........ 27

Datblygu TGCh a digidoleiddio ........ 28

Caffael ........ 28

**3. Llywodraeth Cymru ........ 30**

Cyhoeddi'r Cyfrifon ........ 30

Y Gymraeg ........ 32

Perfformiad Ariannol a Gweithredol ........ 36

Staffio ........ 45

Arbedion ac effeithlonrwydd ........ 47

Fframwaith Cymhwysedd Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ........ 48

Rôl y Cyfarwyddwyr Anweithredol ........ 51

Adolygiad o drefniadau cyrff hyd braich ........ 52

Rheoli grantiau ........ 54

Cronfeydd Strwythurol yr UE ........ 57

**4. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ........ 61**

Cefndir ........ 61

Perfformiad Ariannol a Gweithredol ........ 61

Staffio ........ 62

Arbedion Cyffredinol ac Arbedion Effeithlonrwydd ........ 64

Datblygu TGCh a digidoleiddio ..... 65
Llywodraethiant a Rheolaeth Fewnol ..... 66
**5. Amgueddfa Cymru ..... 71**
Y cefndir ..... 71
Perfformiad Ariannol a Gweithredol ..... 71
Staffio ..... 72
Arbedion ac effeithlonrwydd ..... 76
**Atodiad: Tystion ..... 80**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ceisio sicrhau y caiff cyllid cyhoeddus ei wario'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru o ganlyniad i hynny.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi craffu ar gyfrifon nifer o gyrff cyhoeddus. Rydym wedi gweld gwelliant yn y modd y cyflwynir cyfrifon y rhai sy'n ymddangos ger ein bron, gydag adroddiadau ariannol symlach, gan wneud cyfrifon yn haws eu defnyddio a'u deall. Fodd bynnag, rydym yn credu bod mwy o waith i'w wneud.

Mae angen i'r adroddiadau blynyddol a chyfrifon nodi sut y mae arian trethdalwyr wedi'i ddefnyddio gan y rhai yr ymddiriedir ynddynt i'w wario ac i fod yn atebol am ei ddefnydd. Mae angen i'r adroddiadau blynyddol a chyfrifon gyflwyno'n glir nodau, gweithgareddau, swyddogaethau a pherfformiad y sefydliad. Dylai esbonio sut y defnyddiwyd cyllid i gyflawni amcanion, gan gysoni ei ddefnydd â chanlyniadau a chysylltu â'r meysydd incwm a gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd, a ninnau hefyd, i herio pa mor effeithiol ac effeithlon y mae arian trethdalwyr yn cael ei wario a hefyd pa mor dda y mae cyrff y sector cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i'r dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu.

Nid dyna derfyn ein pryderon ynghylch tryloywder. Rydym yn cydnabod y gall y wybodaeth a ddatgelir ar hyn o bryd yn yr adroddiadau blynyddol a chyfrifon fodloni gofynion adrodd ariannol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y diffyg tryloywder o ran adrodd rhai meysydd o wariant gwirioneddol neu bosibl. Mae gwybodaeth yn aml yn cael ei hatal ar sail sensitifrwydd masnachol. Er y gall hyn fod yn briodol mewn rhai achosion, mae angen i gyrff cyhoeddus gydbwyso hyn â'r gofyniad am ddatgeliad agored er budd y cyhoedd.

Rydym wedi pryderu ers amser maith am y defnydd o gytundebau cyfrinachedd. Mae eu potensial i weithredu fel rhwystr sylweddol i chwythu'r chwiban a chyfrannu at guddio materion yn golygu, o bosibl, mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid eu cyfiawnhau.

Er mwyn hyrwyddo tryloywder yn yr ystyr ehangaf, rydym yn credu y gellir cael budd mawr o ddefnyddio dull gweithredu'r byrddau iechyd yng Nghymru a nodwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sy'n cyhoeddi gwybodaeth ariannol yn rheolaidd ac yn cynnwys – yn eu papurau bwrdd – gopïau o'u cyfrifon rheoli yn ystod y flwyddyn ac adroddiadau eraill sy'n ymwneud â'r adroddiadau blynyddol chyfrifon. Rydym yn credu y gellid cyflawni gwaith craffu gwell pe bai modd i'r holl

gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried darlun llawnach – a gellid hwyluso hynny drwy drefnu i ddeunydd o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried nifer o argymhellion. Er ein bod yn ceisio gwella tryloywder a'r wybodaeth yn yr adroddiadau blynyddol a chyfrifon, rydym hefyd wedi ceisio nodi meysydd datblygu rydym am ailedrych arnynt yn y dyfodol.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'r gwaith o graffu ar gyfrifon y flwyddyn hon.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mesurau angenrheidiol i atal swyddogion rhag gwrthod rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eto (yn gyfrinachol os oes angen) ar y sail na chânt wneud hynny yn ôl y gyfraith (ac yn amlwg yn groes i A4.12.11). ........................Tudalen 17

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod targedau Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys mesurau amgen ar gyfer ei berfformiad ariannol, gan sicrhau trylwyredd wrth reoli ei gyllid. Gallai'r rhain adlewyrchu sut y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiwn eu defnyddio a'r rhai ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu. ........................Tudalen 20

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad yn gosod targed ehangach a mwy uchelgeisiol ar gyfer arbedion cost neu effeithlonrwydd sy'n adlewyrchu ystod lawn ei weithgareddau yn hytrach nag ymwneud â'r contractau y bydd yn eu hadnewyddu yn ystod y flwyddyn yn unig. Dylid llunio adroddiad am berfformiad ar sail y targed bob blwyddyn yng nghyfrifon Comisiwn y Cynulliad. ........................Tudalen 21

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu i'r Pwyllgor, pan fo rhagor o fanylion yn hysbys, y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu ei Gynllun Ymadael Gwirfoddol, gan gynnwys sut y cafodd ei lywio gan ei Adolygiad Capasiti........................ Tudalen 23

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys dadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn ei adroddiadau monitro mewnol, yn ogystal â'i gyfrifon blynyddol, i wahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl ac achosion eraill o salwch. ............ Tudalen 24

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae cyfraddau trosiant staff wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf rhwng 2015-16 a 2018-19. ........................ Tudalen 24

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am y newidiadau y mae wedi'u gwneud i'w system rheoli perfformiad, ynghyd ag asesiad o'u heffeithiolrwydd wrth gryfhau'r trefniadau. ........................ Tudalen 25

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn adeiladu ar y gwaith i ymgysylltu â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac arwain y ffordd ar draws y sector cyhoeddus drwy gynnwys, yn ei adroddiadau blynyddol a'i gyfrifon, ddatgeliad o'r bwlch cyflog ethnigrwydd. ........ Tudalen 26

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn mesurau cynaliadwyedd eraill, gan gynnwys mannau gwefru, i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan ac atgyfnerthu ei rinweddau amgylcheddol. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rannu'n ehangach unrhyw beth perthnasol a ddysgwyd o'i hymdrechion ei hun i gynyddu ei sylfaen cyflenwyr o Gymru. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer cyhoeddi ei chyfrifon a'i hadroddiadau blynyddol yn flynyddol i helpu o ran tryloywder a dealltwriaeth o'r broses. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn perthynas â'i thrafodaethau â Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth lunio ac archwilio cyfrifon 2017-18. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, i'r Pwyllgor, yr adnoddau sydd ganddi ar gyfer y broses, yn ogystal ag esbonio sut y mae'n sicrhau bod ganddi ddigon o sgiliau a galluoedd i ddarparu ei chyfrifon blynyddol. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trefnu bod gwybodaeth ariannol fanylach a gwybodaeth am berfformiad ar gael i'r cyhoedd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiadau o wariant blynyddol ym mhob Prif Grŵp Gwariant a sut y mae'r rhaglenni hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd adroddiadau am ei pherfformiad yn ystod y flwyddyn i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i gyhoeddi ei chyfrifon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer mynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i'r Bwrdd ac yn rhannu'r canlyniad, yn ogystal â phapurau a drafodir gan y Bwrdd. .................................. Tudalen 36

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gydymffurfio â'r arfer gorau ym maes cyflwyno adroddiadau ariannol drwy gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn wrth lunio adroddiadau blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf, cyn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i gyrff a noddir ganddi. Dylai'r adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon, o leiaf, nodi sut y mae'r arian wedi'i wario a'r hyn y mae wedi'i gyflawni, gan gyfeirio at y targedau a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r perfformiad yn eu herbyn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o wariant yn erbyn nodau "Ffyniant i Bawb" (a'r rhaglenni dilynol) a thargedau sefydliadol eraill yn y cyfrifon, yn gyson â'r gwariant yr adroddir arno yn y datganiadau ariannol. .................................................................................................. Tudalen 41

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn glir y gofynion y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth lunio ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon. Dylai hefyd fod yn glir ynghylch gofynion Cymru ar gyfer Adroddiadau Blynyddol a sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys hi ei hun. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol gan alluogi gwaith craffu effeithiol. ............................................... Tudalen 41

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa wybodaeth y gellir ei chynnwys yn ei chyfrifon er mwyn hyrwyddo tryloywder mewn perthynas â'r cymorth busnes a ddarperir heb ddigalonni darpar fuddsoddwyr. ............................................................................................ Tudalen 43

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i wella ei dealltwriaeth o rinweddau posibl cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor. ........................................................................ Tudalen 45

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor ei chynllun gweithredu ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. ............................................................................................ Tudalen 46

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn helpu o ran tryloywder a hwyluso gwaith craffu, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn ei chyfrifon yn y dyfodol i esbonio diben pecynnau ymadael a/neu gynlluniau diswyddo. ................................................................... Tudalen 47

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth yn ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon blynyddol am y gweithgareddau effeithlonrwydd ar draws ei sefydliad. Dylai hyn gynnwys ei halldro yn erbyn y targedau a bennwyd, gydag esboniad lle nad yw nodau perfformiad wedi'u cyrraedd........................................Tudalen 48

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu, cyn i'r Pwyllgor graffu ar ei chyfrifon ar gyfer 2018-19, ddiweddariad mewn perthynas â gwaith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd ac, yn benodol, y camau a weithredwyd o ganlyniad i adolygiad Deloitte o'i wasanaethau corfforaethol........................................Tudalen 48

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'r rhesymau dros newid trywydd a sut y mae "menter Diogelu'r Dyfodol" yn wahanol i "Parod at y Dyfodol", y cynllun a gyflwynwyd gan y cyn Ysgrifennydd Parhaol. Dylai hyn bennu sut y mae'r rhaglen newydd yn gweithio er mwyn gwella effeithlonrwydd y sefydliad, yn ogystal â datblygu ei gapasiti a'i ystwythder.
........................................Tudalen 51

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i'r Pwyllgor ei safbwynt o ran mabwysiadu Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU a sut y bydd y rhain yn gweithio yng nghyd-destun Cymru, gan gynnwys y berthynas - neu fel arall - rhwng y dull gweithredu hwn a safonau a gwerthoedd ar gyfer hybu mewnol ar raddfeydd porth a ddatblygir gyda mewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a pha fframwaith sy'n cael blaenoriaeth.
........................................Tudalen 51

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu goruchwyliaeth annibynnol a her i'r Weithrediaeth ac osgoi gwrthdaro buddiannau (gwirioneddol neu ganfyddedig), na ddylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ei Chyfarwyddwyr Anweithredol i wneud gwaith y tu hwnt i gwmpas eu rolau anweithredol........................................52

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'n llawn sut y bydd yn cael sicrwydd llawn, wedi'i ddogfennu, am y materion yr adroddwyd arnynt o'r blaen drwy'r weithdrefn galw i mewn.
........................................Tudalen 54

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfrifon yr Ombwdsmon yn adrodd ar ei berfformiad yn gliriach ac yn fwy effeithiol. Dylai hyn gydymffurfio â'r arfer gorau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol, gan nodi perfformiad yr Ombwdsmon o gymharu â'i amcanion, gan gynnwys y rhai yn ei Gynlluniau Gweithredol a Strategol tair blynedd, yn ogystal â nodi ei gynlluniau a'i dargedau ar gyfer y dyfodol.......... Tudalen 62

**Argymhelliad 30.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn gosod targedau ar gyfer arbedion cost i adlewyrchu'r ystod lawn o'i weithgareddau. Dylid adrodd ar berfformiad ar sail y targedau hyn bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. .......... Tudalen 65

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth, fod yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol i'w Banel Cynghori nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. .......... Tudalen 69

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er budd tryloywder, fod yr Ombwdsmon yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y cyfrifon mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau yn y dyfodol am ei rwymedigaethau posibl ac agweddau eraill ar ei ddatganiadau ariannol. .......... Tudalen 70

**Argymhelliad 33.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsman yn esbonio i'r Pwyllgor ei resymau dros wneud taliadau arbennig yn 2017-18 i gyn-aelodau o staff. Dylai hyn nodi pam yr oedd taliadau o'r fath yn ddarostyngedig i gymal cyfrinachedd. .......... Tudalen 70

**Argymhelliad 34.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa yn cydymffurfio â'r arfer gorau wrth adrodd ar ei pherfformiad ar sail nodau ac amcanion, gan ddefnyddio ffeithluniau i wella'r dull cyfathrebu a dealladwyedd. .......... Tudalen 72

**Argymhelliad 35.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n parhau i fonitro ei chyfradd absenoldeb staff yn fanwl, gan ddadansoddi lefelau absenoldeb staff i nodi achosion absenoldeb oherwydd salwch. Er mwyn galluogi cymhariaeth ehangach, dylai'r Amgueddfa sicrhau ei bod yn cyfrifo ac yn adrodd ei chyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn unol â'r sector cyhoeddus ehangach, gan ddatgelu cyfradd y diwrnodau, yn ogystal â chanrannau.......... Tudalen 75

**Argymhelliad 36.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n cydymffurfio, cyn gynted â phosibl, â'i gofyniad statudol i lunio adroddiad cydraddoldeb strategol blynyddol. .......... Tudalen 76

**Argymhelliad 37.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn hyrwyddo tryloywder, fod yr Amgueddfa'n rhoi diweddariad i'r Pwyllgor o ran ei chynnydd wrth weithredu ei strategaeth fasnachol a'i pherfformiad yn ei herbyn yng nghyfrifon 2018-19. ........ Tudalen 77

**Argymhelliad 38.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n adolygu ei mesurau amgylcheddol presennol, ac yn ceisio trafod ffyrdd eraill o wella ei chynaliadwyedd wrth sicrhau'r gwerth gorau am arian........ Tudalen 78

**Argymhelliad 39.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n rhoi diweddariad mewn perthynas â'i chynllun ôl-groniad gwaith cynnal a chadw presennol, yn enwedig wrth fynd i'r afael â materion y nodwyd eu bod yn risg uchel/sylweddol........ Tudalen 79

**Argymhelliad 40.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n cynnwys digon o wybodaeth yn ei chyfrifon i wella dealltwriaeth a hwyluso gwaith craffu, yn enwedig o ran ei rhwymedigaethau posibl yn y dyfodol. ........ Tudalen 79

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) yn gwneud gwaith craffu ar nifer o gyrff a ariennir yn gyhoeddus yn yr hydref bob blwyddyn ar ôl i'r sefydliadau gyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol a Chyfrifon ('Cyfrifon'). Mae'r gwaith hwn yn bwysig wrth sicrhau bod gwariant arian cyhoeddus yn destun gwaith craffu cadarn ac yn rhoi sicrwydd.

**2.** Ochr yn ochr â'i waith craffu blynyddol ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn trafod detholiad o gyfrifon a osodir yn y Cynulliad Cenedlaethol gan sefydliadau o bob rhan o'r sector cyhoeddus.

**3.** Ar gyfer y cyfnod 2017-18, aeth y Pwyllgor ati i ailedrych ar gyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Amgueddfa Cymru. Yn ystod tymor yr hydref 2018, trafodwyd Cyfrifon 2017-18 Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd, ar ôl i Archwilydd Cyffredinol Cymru gymhwyso ei farn reoleiddiol. Adroddodd y Pwyllgor ar wahân ar y mater cymhwyso yn ein Hadroddiad, "Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiadau blynyddol a Chyfrifon 2017-18"[1], a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018.

**4.** Trafododd y Pwyllgor hefyd Adroddiad Rheoli Grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 a'r drefn o reoli cronfeydd strwythurol yr UE yn ystod ei waith craffu. Cofnodir arsylwadau'r Pwyllgor ar hyn ym Mhennod 3.

**5.** Fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad ar y pryd, cafodd Adam Price AC ei wahardd o dan Reol Sefydlog 18.9 rhag trafod materion sydd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac sy'n ymwneud â Chomisiwn y Cynulliad. Am y rheswm hwnnw, dewisodd fod yn absennol o sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gyda Chomisiwn y Cynulliad, ac nid yw wedi cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Pwyllgor am Gyfrifon y Comisiwn.

## Y Themâu Allweddol

**6.** Roedd nifer o faterion allweddol yn dod i'r amlwg o gyfrifon y sefydliadau:

### Cysylltiadau â pherfformiad.

**7.** Yn ein gwaith craffu ar nifer o sefydliadau eleni ac, yn wir, yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi nodi bod angen gwelliant wrth adrodd ar berfformiad.

[1] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18, (Rhagfyr 2015)

**8.** Dylai'r adroddiadau blynyddol a chyfrifon ddarparu darlun clir o nodau, gweithgareddau a swyddogaethau'r sefydliad, yn ogystal â naratif am ei berfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n cysylltu â'r incwm a'r gwariant ar gyfer yr un cyfnod. Nodir canllawiau ar gyfer cynnwys yr adroddiadau ac mae enghreifftiau o arfer da wedi'u cynnwys yn Good practice from the "Excellence in reporting" in the Public Sector award, sef dogfen sy'n trafod y wobr a ddyfernir ar y cyd gan PricewaterhouseCoopers a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol bob blwyddyn.[2]

**9.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o siomedig gyda'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn. Er ei fod wedi gwneud argymhellion blaenorol, mae'n debyg nad yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd llawer o gamau, neu ddim camau o gwbl, i wella'r broses o adrodd ar berfformiad yn erbyn ei hamcanion a'i thargedau.

**10.** Rydym am i Lywodraeth Cymru fod yn esiampl o ran pennu safonau ym maes adroddiadau ariannol ac, wrth wneud hynny, adlewyrchu'r arferion gorau a pherfformiad sefydliadol ehangach, yn ogystal ag adrodd ar faterion sy'n benodol i Gymru, megis gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## Tryloywder

**11.** Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon sy'n dod i'r amlwg ynghylch tryloywder sy'n ymwneud â llunio cyfrifon cyrff cyhoeddus a'r wybodaeth a geir ynddynt.

### *Argaeledd gwybodaeth*

**12.** Ni chyhoeddwyd Adroddiadau blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 tan fis Hydref 2018, sy'n ymddangos yn hwyr mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol ac mae'n llawer hwyrach na chyrff cyhoeddus eraill a osododd eu cyfrifon ym mis Gorffennaf 2018 yn gyffredinol.

**13.** Mae Adran 4.13 o "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" yn nodi'r gofynion ar dryloywder llywodraeth ganolog a chyrff y GIG. Mae'n nodi'r canlynol:

> "4.13.2 Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus fabwysiadu cynllun cyhoeddi sy'n cynnig gwybodaeth am weithgareddau'r sefydliad fel mater o drefn. Dylai hefyd gyhoeddi gwybodaeth reolaidd am ei gynlluniau, ei berfformiad a'i ddefnydd o adnoddau cyhoeddus.

[2] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Good practice from the "Excellence in reporting" in the Public Sector award (Saesneg yn unig) (Ebrill 2017)

> 4.13.3 Dylai'r wybodaeth gyhoeddedig fod yn ddigon manwl, ac yn ddigon rheolaidd, er mwyn galluogi defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill i ddwyn y sefydliad a'i Weinidogion i gyfrif. Gall meincnodau helpu defnyddwyr lleol i werthuso perfformiad lleol yn haws."[3]

**14.** Roedd y Pwyllgor yn teimlo nad oedd Llywodraeth Cymru yn bodloni'r gofyniad hwn a'i bod, ar yr un pryd, yn gosod gofynion mwy llawdrwm ar gyrff eraill, megis y Byrddau Iechyd.

*Cymorth Ariannol i Fusnesau*

**15.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru pa wybodaeth oedd yn cael ei darparu yn ei chyfrifon o ran y cymorth ariannol a ddarperir i fusnes, ac a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gytundebau, megis yr un gydag Aston Martin, gyda busnesau eraill. Ni chawsom ymateb ar hyn yn y cyfarfod, oherwydd cyfrinachedd masnachol. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor i gadarnhau bod gan Lywodraeth Cymru drefniadau gwarant ar waith mewn perthynas â thri phrosiect, gan gynnwys Aston Martin, ac y cafodd y rhain i gyd eu cynnwys fel rhwymedigaethau digwyddiadol yng nghyfrifon cyfunol 2017-2018, er nad oedd y ddau brosiect arall am i'w gwybodaeth gael ei datgelu.

**16.** Mae atal gwybodaeth ariannol ar sail sensitifrwydd masnachol wedi bod yn destun pryder i ni ers tro. Mae angen trafodaeth ehangach ynghylch pa wybodaeth y gellir ei chyhoeddi er mwyn bodloni awydd dilys am wybodaeth am y ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

*Taliadau Arbennig a Phecynnau Ymadael.*

**17.** Mewn dwy set o gyfrifon a drafodwyd gan y Pwyllgor, gwnaethom nodi y gwnaed taliadau ymadael i'r staff:

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Yn Nodyn 19 o'r Adroddiadau blynyddol a Chyfrifon, nodwyd y gwnaed tri thaliad a ddaeth i £94,000 i staff a adawodd gyflogaeth yr Ombwdsmon yn ystod 2017-18.

- Cyfoeth Naturiol Cymru: Yn Nodyn 2 i'r Adroddiad Taliadau, datgelwyd bod Dr Emyr Roberts wedi dal swydd y Prif Weithredwr tan 31 Hydref 2017. Roedd y ffigur cyflog a adroddwyd yn cynnwys taliad o £35,000 i £40,000 a wnaed dan delerau cytundeb setliad.

---

[3] Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2016

**18.** Gwnaethom nodi nad oedd y cyfrifon yn cynnwys gwybodaeth arall am y taliadau hyn.

**19.** Yn ei thystiolaeth, cydnabu Llywodraeth Cymru y gallai ei dull adrodd ar becynnau ymadael i staff fod wedi bod yn fwy eglur.

**20.** Nid yw'r diffyg gwybodaeth am becynnau ymadael a thaliadau arbennig yn helpu o ran tryloywder. Mae'n golygu na allwn graffu a ydynt yn sicrhau gwerth am arian. Nid yw hyn yn dderbyniol.

**21.** Ni chawsom unrhyw wybodaeth am daliadau arbennig mewn ymateb i'n cwestiynau i dystion, a ddywedodd wrthym na ellid trafod dim oherwydd cytundebau cyfreithiol. Mae hyn yn bryder gan y gall cytundebau cyfrinachedd fod yn rhwystr sylweddol i chwythu'r chwiban a chuddio materion yn niwylliant y sefydliad.

**22.** Mae defnyddio cytundebau datgelu wedi bod yn destun pryder i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a'i ragflaenydd, sef y Pwyllgor Archwilio, ers sefydlu'r Cynulliad. Yn 2003, dywedodd ein rhagflaenydd fel a ganlyn:

> "Rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailddosbarthu cyfarwyddiadau i bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ar ddefnyddio cymalau cyfrinachedd. Rydym yn sicr o ddysgu oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r Memoranda Ariannol a roddir i'r cyrff hyn, gan ddileu cymalau o'r fath yn benodol. **Rydym yn argymell** bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosib."[4]

**23.** Yn dilyn yr argymhelliad hwn, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd at bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Ar ôl cyhoeddi Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, cynhwyswyd y gofyniad a ganlyn yn atodiad 4.12:

> "Sicrhau bod unrhyw ymrwymiadau ynghylch cyfrinachedd yn gadael trafodion diswyddo yn agored i graffu digonol gan y cyhoedd, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus."[5]

**24.** Er i ni ofyn cwestiynau am y taliadau hyn, mae'r Pwyllgor yn pryderu, nad oedd modd i ni gadarnhau'r manylion llawn amdanynt. Mae hyn yn codi

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Cynulliad Cyntaf (1999-2003) Pwyllgor Archwilio The Annual Accounts Cyfrifon Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth **[Cyhoeddwyd 2003]**,

[5] Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2016

cwestiynau ynghylch beth y mae'r cymal hwnnw yn A4.12.11[6] yn ei olygu'n ymarferol.

**25.** Rydym yn cydnabod ei bod yn rhesymol ac yn gyfreithlon gosod gofyniad cyfrinachedd ar weithiwr sy'n ymadael o ran gwybodaeth y mae wedi gwybod amdani yn ystod ei gyflogaeth, ond ni all hyn fod yn drech yn gyfreithiol na darpariaethau chwythu'r chwiban a geir yn y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. O wybod nad yw Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn caniatáu defnyddio cymal cyfrinachedd i atal datgelu bodolaeth, neu delerau ariannol, setliad ymadael, rydym yn credu bod angen gwneud mwy i orfodi hyn.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mesurau angenrheidiol i atal swyddogion rhag gwrthod rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus eto (yn gyfrinachol os oes angen) ar y sail na chânt wneud hynny yn ôl y gyfraith (ac yn amlwg yn groes i A4.12.11).

## Targedau effeithlonrwydd/arbedion

**26.** Mewn rhai achosion, roedd diffyg gwybodaeth am dargedau arbedion a pherfformiad yn eu herbyn yn adroddiadau blynyddol a chyfrifon y cyrff y craffwyd arnynt.

**27.** Nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nad oedd ganddo darged. Nid oedd gan Gomisiwn y Cynulliad na Llywodraeth Cymru ddull darlun mawr o ran arbedion. Roedd yn ymddangos bod y dystiolaeth a gawsom yn cyfeirio at ffigurau bach ar feysydd penodol megis y strategaeth leoli yn achos Llywodraeth Cymru, ac adnewyddu contractau ar gyfer y Comisiwn.

**28.** Wrth nodi pwysau ar gyllidebau, rydym yn credu mai dim ond drwy ddull gweithredu strategol y gellir gwneud gwir arbedion.

## Llywodraethu

**29.** Cododd nifer o faterion ynghylch llywodraethu ar lefel bwrdd o waith craffu'r flwyddyn hon:

- Comisiynodd Llywodraeth Cymru un o'i chyfarwyddwyr anweithredol i gynnal grŵp gorchwyl a gorffen Gweinidogol;

[6] Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2016

- Nid oes gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru aelod annibynnol, gan fod ei aelodau'n dod o'r Panel Cynghori.

**30.** Er y dywedwyd wrthym y defnyddiwyd y mesurau diogelu angenrheidiol yn yr achosion hyn, mae'r Pwyllgor yn awyddus i bwysleisio pwysigrwydd cynnal annibyniaeth wirioneddol ac annibyniaeth ganfyddedig y bobl sy'n ymgymryd â'r rolau hyn. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion yn y ddau achos i hyrwyddo annibyniaeth

# 2. Comisiwn y Cynulliad

## Y cefndir

**31.** Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) yw un o'r ddau gorff y mae eu hadroddiadau blynyddol a chyfrifon yn destun gwaith craffu blynyddol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Gosodwyd Adroddiadau blynyddol a Chyfrifon, 2017-18 (y Cyfrifon) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Gorffennaf 2018 a chraffodd y Pwyllgor arnynt yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2018.

## Perfformiad Ariannol a Gweithredol

### Targed alldro

**32.** Mae Comisiwn y Cynulliad yn cael ei gyllid yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac mae'n ofynnol iddo weithredu o fewn y gyllideb a osodwyd. Mae wedi bod yn arferol i Gomisiwn y Cynulliad osod Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer ei alldro.[7] Gosodwyd y DPA ar gyfer alldro i fod o fewn 1 y cant o'r gyllideb tan 2016-17 pan gafodd ei ostwng i 0.5 y cant.

**33.** Trafododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad a ddylai Comisiwn y Cynulliad osod targed alldro. Adroddodd y Pwyllgor nad oedd wedi'i argyhoeddi bod y dull gweithredu'n cyflawni'r effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran defnyddio adnoddau. Argymhellodd y dylai Comisiwn y Cynulliad fonitro'r dull gweithredu'n ofalus ac y dylai'r adnoddau hyn gael eu dychwelyd i bwrs y wlad pan ganfyddir arbedion sylweddol.[8]

**34.** Ar gyfer 2017-18, adroddodd Comisiwn y Cynulliad £593,000 o danwariant cyfanredol yn erbyn cyfanswm ei gyllideb net, £54,445,000, sef 1.1 y cant o'r gyllideb. Pan oedd costau Pensiynau'r Aelodau wedi'u heithrio, tanwariant Comisiwn y Cynulliad oedd £389,000, neu 0.7 y cant o'r gyllideb. Mae hyn yn golygu, er bod y Comisiwn yn gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo, na fodlonodd ei alldro ei DPA i weithredu o fewn 0.5 y cant o'i gyllideb ar gyfer 2017-18.

[7] Y swm gwirioneddol a wariwyd ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu, yn hytrach na'r rhai a amcangyfrifwyd yn y gyllideb i ddechrau.

[8] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2014-15, (Rhagfyr 2015)

**35.** Pan ofynnodd y Pwyllgor am ganlyniadau peidio â chyflawni'r DPA, dywedodd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel a ganlyn:

> "I think there would be consequences for me as an accounting officer if we went over our budget, and the imperative to not go over our budget at all is obviously a very strong thing that drives us. But we manage the finances very closely. We monitor and report on the budget on a monthly basis, and therefore we try, through that means, to minimise any under-utilisation. However, from next year onwards we will be committing to return any unspent parts of the determination, or rather not drawing down any parts of the determination that we don't need. So, this becomes a less useful KPI from then on."[9]

**36.** Gofynnwyd i Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu yn y Cynulliad, a oedd y Comisiwn o'r farn bod y targed alldro yn DPA defnyddiol. Dywedodd fod Comisiwn y Cynulliad yn cynnal adolygiad o'r DPA ac y byddai safbwynt y Pwyllgor yn ddefnyddiol i lywio'r trafodaethau hyn.[10]

### ***Safbwynt y Pwyllgor***

**37.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes canlyniadau i Gomisiwn y Cynulliad pan nad yw'n cyflawni'r DPA. Ein safbwynt ni yw bod hyn, ynghyd ag ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad o 2019-20 i ddychwelyd arian heb ei wario i Gronfa Gyfunol Cymru, yn golygu ei fod yn amserol cynnal adolygiad o'r DPA.

**38.** Nid ydym o'r farn bod mabwysiadu DPA ar gyfer alldro, yn ychwanegol at y gofyniad i Gomisiwn y Cynulliad weithredu o fewn ei gyllideb, o reidrwydd yn dangos rheolaeth ariannol lwyddiannus na gwerth am arian. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod targedau Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys mesurau priodol ar gyfer ei berfformiad ariannol, gan sicrhau trylwyredd wrth reoli ei gyllid. Gallai'r targedau hyn adlewyrchu sut y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiwn eu defnyddio a'r rhai ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod targedau Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys mesurau amgen ar gyfer ei berfformiad ariannol, gan sicrhau trylwyredd wrth reoli ei gyllid. Mae angen i'r targedau hyn adlewyrchu sut y mae'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiwn eu defnyddio a'r rhai ar gyfer y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu.

---

[9] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 28

[10] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 25

## Targed arbedion

**39.** Nododd Cyfrifon 2017-18 Comisiwn y Cynulliad ei fod wedi cyflawni arbedion o £138,000 yn erbyn targed o £100,000.

**40.** Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y targed o £100,000 yn ddigonol yng nghyd-destun cyllideb net gyffredinol Comisiwn y Cynulliad, sef £37 miliwn[11] yn 2017-18. Esboniodd Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid Comisiwn y Cynulliad, fel a ganlyn:

> "For many years, it [the savings target] was set at around £500,000, but in more recent years—so, last year and the current year—we've reduced it down to £100,000 because of the nature of the contracts that we've got coming up, and a number of them have been through one cycle already, so they're coming up for the second renewal and fewer opportunities to make those savings. So, it's a realistic target."[12]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**41.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Comisiwn y Cynulliad yn gosod yr hyn y mae ei ystyried yn darged realistig ar gyfer arbedion mewn perthynas â chontractau. Fodd bynnag, ein pryder yw ei bod yn ymddangos mai'r contractau y bydd yn eu hadnewyddu yn ystod y flwyddyn sydd, i raddau helaeth, yn rheoli targedau arbedion Comisiwn y Cynulliad. Rydym yn credu bod angen targed ehangach a mwy uchelgeisiol ar gyfer cyflawni arbedion cost neu effeithlonrwydd ar draws ei holl feysydd gwaith. Dylid meintioli hyn a'i ddefnyddio i lunio adroddiad am berfformiad bob blwyddyn yng nghyfrifon Comisiwn y Cynulliad.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad yn gosod targed ehangach a mwy uchelgeisiol ar gyfer arbedion cost neu effeithlonrwydd sy'n adlewyrchu ystod lawn ei weithgareddau yn hytrach nag ymwneud â'r contractau y bydd yn eu hadnewyddu yn ystod y flwyddyn yn unig. Dylid llunio adroddiad am berfformiad ar sail y targed bob blwyddyn yng nghyfrifon Comisiwn y Cynulliad.

---

[11] Mae cyllideb net y Cynulliad o £54.4 miliwn yn cynnwys adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau (£15.5 miliwn) a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (£1.9 miliwn), yn ogystal ag adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad (£37 miliwn)

[12] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 138

## Staffio

### Lefelau staffio

**42.** Cychwynnodd Comisiwn y Cynulliad Adolygiad Capasiti yn hydref 2017 i ddadansoddi sut y caiff adnoddau eu dyrannu ac i werthuso a ellir defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Adroddwyd ar y canfyddiadau cychwynnol ym mis Ionawr 2018. Dilynodd ail gam, a diben hynny oedd trafod y canfyddiadau'n fanylach a datblygu dulliau o ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithlon ac effeithiol.

**43.** Trafododd yr Aelodau yr adolygiad capasiti parhaus ac a oedd y broses hon wedi rhoi prawf digonol i'r lefelau staffio er mwyn nodi lle y gellid ailddyrannu adnoddau i feysydd blaenoriaeth, megis Rhaglen Diwygio'r Cynulliad a Brexit. Esboniodd Manon Antoniazzi nad oedd yr adolygiad wedi tynnu sylw at feysydd ag adnoddau sylweddol dros ben, ond ei fod wedi nodi cyfres o arbedion. Roedd hyn yn golygu y gallai'r Comisiwn wneud y canlynol:

> "…respond in a more flexible way to emerging demands—notably, of course, Brexit and Assembly reform—where we have had to move staff resource from areas where it could be spared to this more urgent need, and that's worked out quite well in terms of freeing posts and enabling us to stay within our establishment post cap of 491, which we committed to do in discussion with the Finance Committee last year."[13]

**44.** Nododd y Pwyllgor hefyd fod dogfennaeth cyllideb ddrafft 2019-20 y Comisiwn yn dweud bod Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) yn cael ei "ystyried o ddifri" yn chwarter olaf 2018-19, a allai gael ei ariannu o arbedion busnes gweithredol o gyllidebau staff 2018-19 a 2019-20.[14] Clywodd y Pwyllgor y byddai'r VES yn cael ei ddefnyddio fel:

> "…method of refreshing skills. Because we've committed not to increase the staff establishment number for now, then we do have to find the new skills to meet the new demands in this way. So, if it goes ahead, it'll be closely targeted on that basis."[15]

**45.** Yn ein hadroddiad ynghylch craffu ar gyfrifon 2016-17, argymhellwyd bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi manylion ynghylch sut y mae ei adolygiad capasiti wedi rhoi prawf ar y lefelau staffio ac yn esbonio sut y caiff staff eu defnyddio i

[13] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 47

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-31-18 PTN3, 26 Tachwedd 2018

[15] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 64

gyflawni blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiwn yn lansio'r VES ym mis Rhagfyr 2018 ac y cyhoeddwyd y canlyniadau ddiwedd mis Chwefror 2019.

***Safbwynt y Pwyllgor***

**46.** Gan adeiladu ar argymhelliad y Pwyllgor yn adroddiad craffu ar gyfrifon 2016-17, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Adolygiad Capasiti hwn, a'r angen i flaenoriaethu adnoddau, lywio VES Comisiwn y Cynulliad.

> **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu i'r Pwyllgor, pan fo rhagor o fanylion yn hysbys, y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu ei Gynllun Ymadael Gwirfoddol, gan gynnwys sut y cafodd ei lywio gan ei Adolygiad Capasiti.

## Absenoldebau Staff

**47.** Yn adroddiad Cyfrifon 2017-18 Comisiwn y Cynulliad nodwyd mai 3.77 y cant (neu 8.29 diwrnod) oedd ei gyfradd absenoldeb staff ar gyfer 2017-18, a oedd yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol, sef 3.54 y cant (neu 7.78 diwrnod). Y targed oedd 3 y cant.

**48.** Esboniodd Manon Antoniazzi:

> "Our absence figures have rather overshot our target, as you'll see in the annual report for the last year. In an organisation the size of ours, a relatively small amount of absences can make a big difference and that's certainly borne out."[16]

**49.** Ychwanegodd ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd, gan nodi y byddai wedi bod yn naïf meddwl nad yw pwysau o'r fath yn cael effaith ganlyniadol o ran straen ac iechyd meddwl.[17] Dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrth y Pwyllgor ei fod wedi rhoi mesurau ar waith i gefnogi ei staff yn sgil pwysau o'r fath:

> "We've been supporting the Time to Change Wales campaign and we will be marking Mental Health Day this month with activities, as we did last year. We've established a network to support people who wish to talk about their mental Health."[18]

[16] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 105
[17] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 106
[18] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 107

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**50.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wnaed gan y Comisiwn o ran cefnogi ymgyrch Amser i Newid Cymru a'r Diwrnod Iechyd Meddwl. Yn ein hadroddiad ar Gyfrifon 2016-17, argymhellwyd bod Comisiwn y Cynulliad:

> "… yn parhau i fonitro lefelau absenoldebau staff yn ofalus, gan gynnwys dadansoddi achosion yr absenoldebau oherwydd salwch er mwyn sicrhau y cânt eu rheoli'n briodol."[19]

**51.** Er mwyn sicrhau bod cymorth digonol a phriodol i'r staff, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Comisiwn y Cynulliad gynnwys dadansoddiad o ddata yn ei adroddiadau monitro mewnol, yn ogystal â'i gyfrifon blynyddol, i wahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl ac achosion eraill o salwch. Byddai cyhoeddi cyfraddau trosiant a'r arolwg staff rheolaidd hefyd o gymorth wrth ddeall tueddiadau sylfaenol. Ar adeg y gwaith craffu, canlyniadau'r arolwg boddhad staff diweddaraf oedd y rhai a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017 o'r arolwg yn ystod 2016-17. Mae'r Pwyllgor yn synnu na ddewisodd y Comisiwn gynnal arolwg yn ystod y cyfnod hwn pan fo dangosyddion eraill yn dangos effeithiau negyddol posibl ar lesiant staff, a mesur effaith mentrau'r Comisiwn yn y maes hwn.

**52.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cysylltiadau rhwng llesiant staff, cyfraddau trosiant a boddhad staff, argymhelliad y Pwyllgor Cyllid[20] mewn perthynas â chynnydd mewn trosiant staff ac ymateb dilynol y Comisiwn. Hoffai'r Pwyllgor weld sut y mae cyfraddau trosiant wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys dadansoddiad o ddata absenoldebau staff yn ei adroddiadau monitro mewnol, yn ogystal â'i gyfrifon blynyddol, i wahaniaethu rhwng absenoldebau oherwydd problemau iechyd meddwl ac achosion eraill o salwch.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae cyfraddau trosiant staff wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf rhwng 2015-16 a 2018-19.

---

[19] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2016-17, Argymhelliad 18 (Rhagfyr 2018)

[20] Ymateb Comisiwn y Cynulliad i'r Adroddiad ar graffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2019-2020: Argymhelliad 6 (6 Tachwedd 2018)

## Perfformiad staff

**53.** Dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrth y Pwyllgor ei fod wedi adolygu ei system rheoli perfformiad, a lywiwyd drwy ystyried arfer gorau. O ganlyniad, roedd Comisiwn y Cynulliad wedi gweithredu newidiadau i'r gofynion sy'n ymwneud â dogfennaeth ei staff ac roedd yn ystyried gwneud rhagor o welliannau. Roedd wedi gwneud y canlynol:

> "... changed the form ... and we're probably moving towards a regime where the mid-year performance review is a bit more light touch. But, by and large, we find that the system, as many other organisations find, gives us an assurance that line management is being carried out properly and rigorously, and that people have a line of sight between their personal objectives and the high-level priorities of the organisation."[21]

***Safbwynt y Pwyllgor***

**54.** Mae'r Pwyllgor yn nodi pwysigrwydd dull rheoli perfformiad cadarn, yn enwedig ar adeg pan fo pwysau ar adnoddau a nifer y staff. Mae'n hanfodol bod mesurau ar waith i gymell datblygiad parhaus, annog cynhyrchiant, arbedion effeithlonrwydd ac ymgysylltu â staff.

**55.** Mae'r Pwyllgor yn nodi yr adolygodd Comisiwn y Cynulliad ei system rheoli perfformiad. Byddem yn croesawu asesiad o effeithiolrwydd y newidiadau y mae wedi'u cyflwyno wrth gryfhau ei system rheoli perfformiad.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am y newidiadau y mae wedi'u gwneud i'w system rheoli perfformiad, ynghyd ag asesiad o'u heffeithiolrwydd wrth gryfhau'r trefniadau.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**56.** Mae Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant 2017-18 Comisiwn y Cynulliad[22] yn nodi ystadegau mewn perthynas â chyfansoddiad ei weithlu. Mae'r rhain yn dangos bod y rhan fwyaf o staff o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), yn y graddau band cymorth tîm a rheolwyr iau, sydd â chyflog blynyddol rhwng £17,804 ac £28,154. Dim ond 2 o 265 (neu 0.8 y cant) o

[21] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 124

[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru Comisiwn y Cynulliad Adroddiad 2017-18 Amrywiaeth a Chynhwysiant (Gorffennaf 2018)

weithwyr Comisiwn y Cynulliad sydd â swyddi rheolwyr canol ac uwch, ac sy'n cael cyflog blynyddol rhwng £26,917 a £153,785,[23] a oedd o grwpiau BAME.

**57.** Dywedodd Manon Antoniazzi wrth y Pwyllgor ei bod yn credu bod modd gwneud yn well o ran cynrychiolaeth BAME, yn enwedig er mwyn adlewyrchu'n well amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir.[24] Ychwanegodd fod Comisiwn y Cynulliad yn canolbwyntio ar gynyddu cynrychiolaeth BAME ar draws y graddau a'i fod wedi gwneud y canlynol:

> "…established a mentoring scheme, we have a network for people from black and minority ethnic backgrounds within the staff team, and as you suggest and was implicit in your question, we're very conscious of the fact that the BAME staff we have at the moment tend to be in more junior roles and that is a concern as well. So, once we've got them in, we want to work hard to retain them and progress them through the organisation and get some visible role models."[25]

***Safbwynt y Pwyllgor***

**58.** Mae'r Pwyllgor yn canmol y Comisiwn ar ei gamau i sicrhau ei fod yn ymgysylltu â chymunedau BAME i ddenu ymgeiswyr i'r cynllun prentisiaeth. Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad y Comisiwn i wella cynrychiolaeth BAME yn ei raddau rheolwyr canol ac uwch reolwyr. O ystyried yr ymgynghoriad parhaus gan Lywodraeth y DU ynghylch a ddylid ei gwneud yn orfodol i gyflwyno adroddiadau am y bwlch cyflog ethnigrwydd,[26] mae'r Pwyllgor yn credu y byddai gwerth i'r Comisiwn arwain y ffordd ac adrodd ar hyn yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Byddai hyn o gymorth wrth ddeall pa rwystrau sydd i staff o leiafrifoedd ethnig rhag ymuno â'r sefydliad a datblygu o'i fewn.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn adeiladu ar y gwaith i ymgysylltu â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac arwain y ffordd ar draws y sector cyhoeddus drwy gynnwys, yn ei adroddiadau blynyddol a'i gyfrifon, ddatgeliad o'r bwlch cyflog ethnigrwydd.

---

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru Comisiwn y Cynulliad Adroddiad 2017-18 Amrywiaeth a Chynhwysiant, Graddfeydd Cyflog (Gorffennaf 2018)

[24] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 77

[25] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 81

[26] Erthygl newyddion y BBC, Ethnicity pay gap: Firms may be forced to reveal figures (11 Hydref 2018) [Cyrchwyd 15 Chwefror 2019]

## Cynaliadwyedd

**59.** Mae Cyfrifon 2017-18 Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys adroddiad cynaliadwyedd, sy'n nodi crynodeb o'i allyriadau nwyon tŷ gwydr a'i ddefnydd o ynni yn unol â chanllawiau adrodd ar gynaliadwyedd Trysorlys EM.[27]

**60.** Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf gan Gomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â'i gynnydd o ran annog dulliau teithio carbon is i staff sy'n cymudo i ystâd y Cynulliad ac oddi yno ac ar fusnes y Cynulliad. Dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrth y Pwyllgor fel a ganlyn:

> "… there's probably more to do. We're on a journey here, and we certainly do encourage and promote sustainable travel modes. It is impacted, obviously, from year to year by business need. We have seen an increase in air travel, and that's mainly Member-related need, but we will certainly continue to promote low-carbon travel for both business needs and for commuting. As well as electrical charging points, we've extended the bike shed and we're encouraging people to cycle to work and things like that as well."[28]

**61.** Ychwanegodd Comisiwn y Cynulliad ei fod wedi gwario oddeutu £13,000 ar osod mannau gwefru trydan ar ystâd y Cynulliad. Yn ogystal, cost y brydles ar gyfer y car at ddefnydd pawb oedd £4,500 y flwyddyn, ond roedd Comisiwn y Cynulliad yn disgwyl arbed tua £1,000 y flwyddyn mewn perthynas â hyn.

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**62.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu gosod y mannau gwefru ac yn cydnabod nad oes llawer o ddefnyddwyr ar hyn o bryd sy'n elwa ar y buddsoddiad hwn o ystyried y nifer fach o ddefnyddwyr y maes parcio sydd â cheir trydan. Gyda mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i leihau allyriadau carbon, mae'r Pwyllgor yn credu y gallai presenoldeb mannau gwefru ar Ystâd y Cynulliad annog defnyddwyr y maes parcio i newid i gerbydau trydan. Fodd bynnag, rydym yn ansicr a yw'r nifer fach o fannau gwefru ar yr Ystâd yn ddigonol o ran rhinweddau amgylcheddol Comisiwn y Cynulliad a dylid gwneud mwy. Rydym yn credu bod angen i Gomisiwn y Cynulliad arwain y ffordd a hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan a mesurau cynaliadwyedd eraill.

---

[27] Trysorlys EM, Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: canllawiau adrodd ar gynaliadwyedd 2017-18 (Hydref 2017) (Saesneg yn unig)

[28] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 202

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn mesurau cynaliadwyedd eraill, gan gynnwys mannau gwefru, i hyrwyddo'r defnydd o gerbydau trydan ac atgyfnerthu ei rinweddau amgylcheddol.

## Datblygu TGCh a digidoleiddio

**63.** Nododd Adroddiad a Chyfrifon 2017-18 Comisiwn y Cynulliad fod un o'r meysydd i'w datblygu yn 2018-19 yw bwrw ymlaen ag argymhellion gan y Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol, gan hyrwyddo tryloywder, ymgysylltiad ac effeithlonrwydd a gwella mynediad at ddata busnes y Cynulliad.

**64.** O ran seiberddiogelwch, dywedodd Manon Antoniazzi wrth y Pwyllgor fel a ganlyn:

> "… a huge concern …It's an issue that doesn't go away, because the bar is continually being raised, and we have to maintain our focus on this issue and our investment in the issue to stay ahead of the game … We've upgraded our software to be proof against the latest types of attack. We've delivered awareness training to staff as well; that's very important, because, as we all know, the weakest link in the chain is quite often human error. So, we want to make people aware of the different ways in which systems can be hacked."[29]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**65.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nod y Comisiwn i sicrhau'r seiberddiogelwch gorau posibl ar gyfer y sefydliad ac y bydd y cynnydd mewn ymwybyddiaeth staff yn helpu i leihau'r risg o dorri diogelwch data.

**66.** Mae'r Pwyllgor yn gobeithio bod y Comisiwn yn parhau i fuddsoddi ei adnoddau'n effeithiol fel ei fod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau TG yn y maes hwn.

## Caffael

**67.** Gofynnodd y Pwyllgor i Gomisiwn y Cynulliad am ei ddangosydd perfformiad allweddol corfforaethol newydd arfaethedig ynghylch gwariant cyflenwyr ar draws Cymru. Dywedodd Suzy Davies wrth y Pwyllgor y byddai Comisiwn y Cynulliad yn cyflwyno DPA newydd ar gyfer caffael i geisio cynyddu nifer y cyflenwyr o Gymru a

[29] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 152

sicrhau bod cadwyni cyflenwi ei gyflenwyr tymor hwy hefyd yn cynnwys cyflenwyr o Gymru. Esboniodd:

> "We're reaching a stage now where, actually, adherence to the frameworks has turned out to be a bit of a problem for trying to get Welsh suppliers involved. So, there is going to be a new KPI, as you say. We're going to try and get 43 per cent of our suppliers from Wales, but also making sure that our longer-term suppliers' supply chains involve a lot of Welsh suppliers as well, because not everybody can be from Wales, obviously."[30]

***Safbwynt y Pwyllgor***

**68.** Nododd y Pwyllgor yn ein hadroddiad Craffu ar Gyfrifon 2015-16[31] y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod polisi o gaffael mwy o Gymru ac, ar yr un pryd, sicrhau'r gwerth gorau am arian. Roedd y gwaith hwn wedi cynnwys sicrhau bod fframweithiau yn cael eu haddasu i alluogi busnesau llai i gystadlu am gontractau a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru.

**69.** Mae'r Pwyllgor yn nodi â diddordeb y cynnydd a wnaed wedi hynny gan Gomisiwn y Cynulliad gyda'r un nod.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rannu'n ehangach unrhyw beth perthnasol a ddysgwyd o'i hymdrechion ei hun i gynyddu ei sylfaen cyflenwyr o Gymru.

[30] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 128

[31] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2015-16, (Rhagfyr 2015)

# 3. Llywodraeth Cymru

**70.** Mae Llywodraeth Cymru yn un o'r ddau gorff y mae ei Adroddiad Blynyddol a'i Gyfrifon yn ddarostyngedig i waith craffu blynyddol gan y Pwyllgor.

**71.** Gosodwyd Cyfrifon 2017-18 Llywodraeth Cymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Saesneg yn unig ar 2 Hydref 2018 a chraffodd y Pwyllgor arnynt ar 15 Hydref 2018.

## Cyhoeddi'r Cyfrifon

**72.** Fel y nodwyd uchod, gosodwyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Hydref 2018. Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Pwyllgor ym mis Awst 2018 ei bod yn bwriadu gosod y Cyfrifon ganol mis Medi, a oedd yn hwyrach na'r Cyfrifon ar gyfer 2016-17 (a osodwyd ar 31 Awst 2017).[32]

**73.** Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad gan yr Ysgrifennydd Parhaol pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi bodloni'r dyddiad a fwriadwyd ar gyfer gosod ei Chyfrifon ar gyfer 2017-18. Ymddiheurodd am yr oedi ac esboniodd:

> "The preparation time this year, actually, continued about five weeks beyond the start date that we'd agreed with the Wales Audit Office.
>
> We had tried a new approach this year to try and bring together the core and the consolidated accounts …. unfortunately, we came across teething problems with that process. To be honest, it was a combination of illness and accidents, plus some technical problems with the spreadsheets, which meant that the main consolidation spreadsheet actually became corrupted. So, as you can imagine, there were a lot of difficulties in resolving that."[33]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**74.** Mae gan y Pwyllgor bryderon sylweddol mewn perthynas â'r oedi cyn cyhoeddi Cyfrifon 2017-18 Llywodraeth Cymru. Rydym yn credu y gallai hyn esbonio'r diffyg blaenoriaeth a roddir ar y gwaith paratoi yn Llywodraeth Cymru. Mae angen i'r gwaith o lunio Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon fod yn amserol. Mae'r esboniad bod yr oedi o ganlyniad i gyflwyno proses newydd yn awgrymu

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-27-18 Papur 3, 15 Hydref 2018

[33] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraffau 21 a 22

bod cwestiynau ynghylch gallu'r tîm sy'n gyfrifol am lunio cyfrifon Llywodraeth Cymru ac, o bosibl, yr adnoddau a neilltuir iddo. Mae hyn yn arbennig o bryderus oherwydd, o'n safbwynt ni, y dylai Llywodraeth Cymru fod yn esiampl o ran cyflwyno adroddiadau ariannol i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**75.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cyfarfod â staff Swyddfa Archwilio Cymru i drafod y broses. Rydym yn croesawu sicrwydd yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o hyn a byddem yn croesawu cael gwybod bod y cyfarfod "cau pen y mwdwl" wedi'i gynnal, ynghyd â chadarnhad bod swyddogion ac archwilwyr wedi cytuno ar gynllun gweithredu.

**76.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus nad oes gwybodaeth gydlynus ar gael i'r cyhoedd am berfformiad Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn hyd nes y cyhoeddir y cyfrifon blynyddol. Mae hyn yn wrthgyferbyniad clir i'r gofynion a osodir ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, megis Byrddau Iechyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**77.** Mae Rheolau Sefydlog Engheifftiol y Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru drwy ddefnyddio pwerau cyfarwyddo a ddarperir yn adran 12 (3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae paragraff 6.1.1 o'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol yn nodi fel a ganlyn:

> "The LHB's business will be carried out openly and transparently in a manner that encourages the active engagement of its citizens, community partners and other stakeholders."

**78.** Maent hefyd yn cynnwys cyfarwyddyd y dylai'r papurau ar gyfer cyfarfodydd bwrdd fod ar gael i'r cyhoedd, yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn fformatau hygyrch.

**79.** O ganlyniad i hyn, mae papurau, megis y cyfrifon rheoli yn ystod y flwyddyn, adroddiadau ISA 260 ac ati ar gael i'r cyhoedd gan fod yr Aelodau yn eu trafod mewn cyfarfodydd bwrdd cyhoeddus.

**80.** Mae paragraff 6.5.1 hefyd yn nodi fel a ganlyn:

> "The LHB shall encourage attendance at its formal Board meetings by the public and members of the press as well as LHB officers or representatives from organisations who have an interest in LHB business. The venue for such meetings shall be appropriate to facilitate easy access for attendees and translation services; and shall have

> appropriate facilities to maximise accessibility such as an induction loop system."

**81.** Mae annog cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus neu agored yn gwahaniaethu byrddau iechyd lleol oddi wrth gyrff eraill y "llywodraeth ganolog", ac mae'n enghraifft dda o gynyddu tryloywder. Rydym am i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyrff eraill i adolygu pa wybodaeth y maent yn trefnu iddi fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn sicrhau safon gyson, a galluogi'r cyhoedd i weld sut y gwneir penderfyniadau. Rydym yn credu y bydd hyn yn hyrwyddo natur agored a thryloyw, ac yn dangos atebolrwydd y cyrff i drethdalwyr Cymru.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen ar gyfer cyhoeddi ei chyfrifon a'i hadroddiadau blynyddol yn flynyddol i helpu o ran tryloywder a dealltwriaeth o'r broses.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn perthynas â'i thrafodaethau â Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y camau y cytunwyd arnynt i ymdrin â'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth lunio ac archwilio cyfrifon 2017-18.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro, i'r Pwyllgor, yr adnoddau sydd ganddi ar gyfer y broses, yn ogystal ag esbonio sut y mae'n sicrhau bod ganddi ddigon o sgiliau a galluoedd i ddarparu ei chyfrifon blynyddol.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trefnu bod gwybodaeth ariannol fanylach a gwybodaeth am berfformiad ar gael i'r cyhoedd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiadau o wariant blynyddol ym mhob Prif Grŵp Gwariant a sut y mae'r rhaglenni hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd adroddiadau am ei pherfformiad yn ystod y flwyddyn i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd.

## Y Gymraeg

**82.** Ni osodwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r cyfrifon cyfunol ar yr un pryd; cafodd y fersiwn Gymraeg ei chyhoeddi ar 15 Hydref 2018.

**83.** Ymddiheurodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, am yr oedi cyn cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg o'r cyfrifon. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "The Welsh-language version is being published today [15 October 2018], because we were so late with the accounts this year … we had the

> English version to sign off a couple of weeks ago … We had a couple of typos that we needed to go through with the Welsh language version."[34]

**84.** Ynghyd â'r mater penodol o ran cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg o'r cyfrifon, cododd y Pwyllgor bryderon ehangach ynghylch ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ei threfniadau mewnol.

**85.** Yn benodol, cyfeiriodd y Pwyllgor at ddogfennau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n dangos bod gweithgor o uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu gan yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol i edrych ar y mater hwn yn ystod haf 2016. Yn ôl cylch gorchwyl y gweithgor fel y nodwyd yn y dogfennau cyhoeddedig:

> "Amcan y grŵp gorchwyl a gorffen yw ystyried gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y sefydliad. Rôl y grŵp yw goruchwylio'r gwaith hwn, a darparu ffurf drafft o eiriau i'r Ysgrifennydd Parhaol a Bwrdd Llywodraeth Cymru eu hystyried a'u cytuno. Bydd y weledigaeth gytunedig yn llywio ein polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y sefydliad a chynllun gweithredu ar hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol."[35]

**86.** Cododd y Pwyllgor bryderon, er ei bod yn ymddangos bod y dogfennau'n dangos bod y gweithgor o uwch weision sifil wedi cwblhau a chyflwyno ei adroddiad i'r Ysgrifennydd Parhaol ei ystyried ym mis Mawrth 2017, nad oedd y papur wedi mynd gerbron Bwrdd Llywodraeth Cymru eto. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi gohirio cyhoeddi adroddiad terfynol gweithgor Llywodraeth Cymru ar gyfer hwyluso a hybu'r Gymraeg gan fod rhagor o waith i'w wneud, yn ei barn hi. Dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod wedi gofyn i adolygiadau gael eu cynnal o ran y diffiniad o ddwyieithrwydd, yr arfer gorau yn safonau'r Gymraeg a'r hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael i staff Llywodraeth Cymru.

**87.** Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd ei bod wedi trafod hyn â Gweinidog y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru a oedd am weld cynnydd yn y maes hwn.

**88.** Yn ei gohebiaeth at y Pwyllgor yn dilyn ei sesiwn dystiolaeth, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "Cafodd y papur ei gyflwyno imi yn ystod y dyddiau cyntaf y bûm yn y swydd, gyda'r nod o gychwyn trafodaeth ar lefel y Bwrdd i'm cynghori

[34] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 108

[35] Llywodraeth Cymru, Ymateb Rhyddid Gwybodaeth, Gofynion Llywodraeth Cymru staff Llywodraeth Cymru, 18 Medi 2018

> ar y dull gweithredu a argymhellwyd ar gyfer datblygu polisi mewnol. Roedd Safonau'r Gymraeg wedi bod yn eu lle ers ychydig fisoedd ar y pryd, ac roedd newidiadau strategol i bolisi iaith ar y gweill, gan gynnwys cyhoeddi Cymraeg 2050. O dan yr amgylchiadau hynny, felly, roeddwn yn credu ei bod yn ddoeth cymryd amser i ddeall mwy am y mater ac i gnoi cil arno."[36]

**89.** Yn ddiweddarach, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Parhaol fel a ganlyn:

> "Mae'r gwersi a ddysgwyd o Gomisiwn y Cynulliad, Heddlu De Cymru, Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Ynys Môn a Chyngor Caerdydd o ddiddordeb mawr imi ac yn rhan o'r gwaith pellach yr wyf wedi'i gomisiynu."[37]

**90.** Yn yr un ohebiaeth, ar fater cyfranogiad gweithdrefnol arweinwyr gwleidyddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Strategaeth Cymraeg 2050, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fel a ganlyn:

> "Fel yn achos pob mater staffio, penderfyniad a gaiff ei wneud gennyf fi yn rhinwedd fy swydd fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yw hwn, gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyngor fy uwch dîm a Bwrdd Llywodraeth Cymru. Er hynny, rwyf yn ymwybodol iawn o gyd-destun deddfwriaethol a gwleidyddol y mater hwn, a'r ymrwymiad clir a nodwyd yn Cymraeg 2050 gan y Prif Weinidog i weld cynnydd yn y defnydd o'r iaith gan weithlu Llywodraeth Cymru. Byddaf yn cydweithio'n agos â'r Gweinidogion i sicrhau bod ein camau nesaf o safbwynt polisi ac uchelgais yn cyd-fynd yn agos â'u blaenoriaethau."[38]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**91.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n arbennig ynghylch y methiant i gyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r cyfrifon ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg. Mae'n arbennig o anesmwyth bod uwch-swyddogion Cymru yn awgrymu bod yr oedi o ganlyniad i wallau teipograffyddol.

**92.** Mae methiant i gyhoeddi'r cyfrifon yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd yn mynd yn groes i'r safonau a nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

---

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-32-18 PTN3, 3 Rhagfyr 2018

[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-32-18 PTN3, 3 Rhagfyr 2018

[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-32-18 PTN3, 3 Rhagfyr 2018

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

**93.** Safbwynt y Pwyllgor yw nad yw cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg o'r cyfrifon ar ddiwrnod y sesiwn dystiolaeth, tua phythefnos ar ôl gosod y fersiwn Saesneg, yn dderbyniol. Fel y cyfryw, bydd y Pwyllgor yn dwyn y mater hwn i sylw Comisiynydd y Gymraeg a Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**94.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â llunio a chyhoeddi dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**95.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr oedi wrth gyflwyno "Defnydd mewnol o'r Gymraeg: adroddiad a luniwyd ar gyfer Bwrdd Llywodraeth Cymru gan grŵp gorchwyl a gorffen o uwch-swyddogion", a gwblhawyd ym mis Mawrth 2017, i Fwrdd Llywodraeth Cymru.

**96.** Ymddengys i'r Pwyllgor fod adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen yn ddarn manwl o waith, ac ymddengys fod cylch diweddaraf o adolygiadau'r Ysgrifennydd Parhaol yn ymdrin â'r un materion.

**97.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhaglen waith 2017-21 Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr yn cynnwys yr ymrwymiad a ganlyn:

> "Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain."

**98.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod Cynllun Gweithredu 2018-19 ar gyfer gweithredu rhaglen waith 2017-21 yn nodi fel a ganlyn:

> "Byddwn yn cytuno ar bolisi defnydd mewnol ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac yna rhoi cynllun gweithredu ar gyfer y polisi ar waith."[39]

**99.** Felly, mae'r Pwyllgor yn pryderu oherwydd yr awgrym bod polisi Llywodraeth Cymru ar hybu a hwyluso'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y llywodraeth a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar ran gweithlu'r llywodraeth yn benderfyniad a fydd, yn y pen draw, yn un i'r Ysgrifennydd Parhaol. Mae'n rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, a dylid penderfynu arno ar lefel Gweinidogion.

---

[39] Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cynllun Gweithredu 2018-19

**100.** Ymhellach, mae sylwadau'r Ysgrifennydd Parhaol am ymrwymiadau'r cyn Brif Weinidog i "Cymraeg 2050", yn tynnu sylw at faterion posibl o ran atebolrwydd gweinidogol a gwaith craffu. Rydym yn credu bod y berthynas rhwng arweinyddiaeth wleidyddol a gweinyddol Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol yn cyfiawnhau ymchwilio ymhellach i'r mater, ac rydym yn bwriadu gwneud darn manylach o waith sy'n edrych ar lywodraethiant yn Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach eleni.

> **Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i gyhoeddi ei chyfrifon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

> **Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer mynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i'r Bwrdd ac yn rhannu'r canlyniad, yn ogystal â phapurau a drafodir gan y Bwrdd.

## Perfformiad Ariannol a Gweithredol

**101.** Yn ein Hadroddiad Craffu ar Gyfrifon 2015-16, nododd y Pwyllgor y gofynion adrodd newydd a gyflwynwyd ar ôl prosiect Trysorlys EM i symleiddio a phrif ffrydio Cyfrifon. Yn benodol, roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff ad-drefnu eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon yn dair adran, yn canolbwyntio ar berfformiad, atebolrwydd a'r datganiadau ariannol craidd.

**102.** Oherwydd bod y gofynion yn gymwys ar draws llawer o'r sector cyhoeddus, argymhellwyd bod yr holl sefydliadau'n gweithio i gyflwyno'r wybodaeth yn eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon mewn dull mor syml â phosibl. Gwnaethom hefyd argymhelliad penodol mewn perthynas â Llywodraeth Cymru. Wrth gydnabod bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn fwy darllenadwy a dealladwy, roedd y Pwyllgor o'r farn bod lle i wella. Argymhellwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o'r wybodaeth yn y cyfrifon i sicrhau ei bod yn dweud wrth bobl beth mae angen iddynt ei wybod, ac y dylai hyn gynnwys gwybodaeth am wariant yn erbyn y gyllideb ym mhob un o'r prif grwpiau gwariant.

**103.** Yn ein Hadroddiad Craffu ar Gyfrifon 2016-17, trafododd y Pwyllgor ddull gweithredu pob un o'r sefydliadau sy'n ymddangos ger ein bron i drefnu bod dogfennaeth gyfrifyddu yn fwy tryloyw a hygyrch i'r cyhoedd. Gwnaethom hefyd ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn adrodd ar eu perfformiad a pha mor glir y maent yn amlinellu sut y defnyddiwyd arian cyhoeddus er mwyn cyflawni amcanion, gan gynnwys i ba raddau y maent yn esbonio'r gwaith o gysoni arian a chanlyniadau. Nododd ein gwaith craffu ystod o arferion.

**104.** Gwnaethom yr argymhellion a ganlyn yn ein hadroddiad:

> "Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf cyn cyhoeddi canllawiau pellach i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. [Argymhelliad 1]
>
> Hefyd, argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn egluro'r gofynion y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth baratoi ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon a bod yn glir ynghylch gofynion Cymru ar gyfer Adroddiadau Blynyddol, a sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys eu hunain. Byddai hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol gan alluogi gwaith craffu effeithiol. [Argymhelliad 2]"

**105.** Yn ei hymateb i'n Hargymhellion yn yr Adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2016-17, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau gwariant y maent yn adrodd arnynt ar wahân. Hefyd, cyn 2016-17, croesgyfeiriodd y cyfrifon cyfunol adroddiadau perfformiad drwy gysylltu ag adroddiadau blynyddol a luniwyd ar y "Rhaglen Lywodraethu". Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'r elfen adrodd ar berfformiad, yn y dyfodol, yn cael ei chroesgyfeirio at Adroddiad newydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a fyddai'n cael ei lunio yn ystod haf 2018.

**106.** Mewn ymateb i argymhelliad 2, nododd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

> "Fel Llywodraeth ddatganoledig, Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod perthnasol ar gyfer diffinio pa wybodaeth ychwanegol y dylid ei chynnwys yn yr adroddiadau blynyddol a chyfrifon ac yn rhai y cyrff hyd braich.... Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r cyrff a noddir ganddi am ofynion cyfrifon blynyddol drwy gyfarwyddyd cyfrifon."[40]

**107.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Parhaol ar ôl iddo ystyried ei hymateb i'n hadroddiad gan nad oedd yn glir pa gamau, os o gwbl, roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd yn sgil rhai o'n hargymhellion.[41]

---

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-10-18 Papur 8, 16 Ebrill 2018

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru, 1 Mai 2018

**108.** Wrth ymateb i'r ohebiaeth, ailadroddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei safbwynt mai mater i Weinidogion Cymru yw adrodd ar berfformiad yn erbyn amcanion. Dywedodd hefyd:

> "Rwy'n sylweddoli bod y Pwyllgor wedi dweud sawl gwaith bod lle i ddarparu rhagor o wybodaeth yn y Cyfrifon Blynyddol am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni amcanion y Llywodraeth."[42]

**109.** Wrth graffu ar Gyfrifon 2017-18, nododd y Pwyllgor – yn gyson â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yn y blynyddoedd blaenorol – nad oedd perfformiad sefydliadol Llywodraeth Cymru yn amlwg yn y cyfrifon, ac na ddarparwyd gwybodaeth mewn perthynas â thargedau.

**110.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru am adrodd ar dargedau sefydliadol a pherfformiad yn eu herbyn. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor ei bod yn credu bod y cyfrifon yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng adrodd gweinidogol ar amcanion ac amcanion llywodraeth. Dywedodd:

> "I think the annual accounts that we have here look at how we spent the money … that includes both an explanation of where the money has gone over the course of that particular year and detailed financial statements explaining that. And, within it, it also includes a number of, if you like, organisational targets—administrative targets of one sort or another."[43]

**111.** Yn ei sesiwn ffarwél gyda'r Pwyllgor hwn ym mis Gorffennaf 2018,[44] dywedodd cyn Archwilydd Cyffredinol Cymru wrthym:

> "…rŷch chi'n gorfod craffu ar beth mae'r Llywodraeth yn ei gwneud, ac mae'n rhaid i fi ddweud, nid wyf yn credu bod y Llywodraeth mor agored ag y dylai fod."[45]

**112.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor nad oedd yn cytuno â chyn Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y mater hwn. Er bod y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn nodi'r fformat gofynnol ar gyfer rhannau dau a thri o'r cyfrifon, cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol fod gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd ar gyfer rhan un.

[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-27-18 Papur 3, 15 Hydref 2018
[43] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 33
[44] Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2018, paragraff 382
[45] Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2018, paragraff 382

**113.** Fodd bynnag, gwnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ystyried cyflwyno gwybodaeth o dan ran un o'r cyfrifon ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ond pwysleisiodd i'r Pwyllgor ei bod o'r farn nad oedd hyn:

> "…really appropriate to make a comparison between the Welsh Government and Whitehall, because we're obviously a Government with a very wide span of responsibilities, rather than a single department. I think, within the annual accounts, we have a very clear picture about how we spend the money."[46]

**114.** Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn credu bod yr wybodaeth a roddir yn y cyfrifon, ynghyd â'r adroddiadau blynyddol ar "Ffyniant i Bawb" ac adroddiadau blynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn rhoi darlun manwl ac amrywiol i Gymru. Dywedodd:

> " … not only do we provide the same level of information, just in a different format, in a number of different reports, but actually having the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 means that we have a much broader span of things to report on, to think about, and that is something genuinely innovative that nobody else has. So, I think, add all of the reports together. I really don't believe that we are not transparent. We do things differently. I believe that we do things clearly and coherently, but across, essentially, three different documents."[47]

**115.** Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai Llywodraeth Cymru yn trafod sut i gyflwyno gwybodaeth am berfformiad:

> "We have currently under way a review of the Welsh Government's business planning process, which covers the whole of the Welsh Government, and it is being reviewed by the board over the rest of this year, and I think it would be worth while to include, as part of that review, a look at whether we could, in future annual reports, perhaps pull together the current targets and standards and other, sort of, administrative elements and organisational targets that are contained throughout the whole document."[48]

---

[46] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 24

[47] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, Paragraff 26

[48] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, Paragraff 42

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**116.** Mae dull adrodd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y tri adroddiad, y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol atynt yn ei thystiolaeth, yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Os nad yw hyn yn wir, mae'n cyfyngu ar eu defnyddioldeb o ran galluogi'r cyhoedd i ddeall sut y defnyddiwyd arian cyhoeddus a'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r dull gweithredu hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bobl ddod o hyd i dair dogfen a'u darllen a defnyddio'r wybodaeth hon i greu darlun o berfformiad Llywodraeth Cymru. Safbwynt y Pwyllgor yw bod hyn yn annefnyddiol, yn rhwystrol ac nad yw'n adrodd mewn modd tryloyw.

**117.** Nid yw'r Pwyllgor yn cytuno â safbwynt yr Ysgrifennydd Parhaol na ddylid cynnwys perfformiad adrodd yn erbyn amcanion polisi yn y cyfrifon oherwydd mai mater i Weinidogion Cymru ydyw. Mae'r cyfrifon yn adrodd ar y gwariant wrth ddilyn amcanion Gweinidogion Cymru. Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai cyfrifon Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'r arian wedi'i wario a'r hyn y mae wedi'i gyflawni, gan gyfeirio at y targedau a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r perfformiad yn eu herbyn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o wariant yn erbyn nodau "Ffyniant i Bawb" (a'r rhaglenni dilynol) a thargedau sefydliadol eraill yn y cyfrifon, yn gyson â'r gwariant yr adroddir arno yn y datganiadau ariannol. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adolygiad o brosesau cynllunio busnes.

**118.** Heblaw am ein pryderon ynghylch cyflwyno, nid yw'r Pwyllgor yn cytuno â'r honiad gan yr Ysgrifennydd Parhaol bod y cyfrifon yn nodi darlun clir iawn ynghylch sut rydym yn gwario'r arian. Er enghraifft, nid yw Cyfrifon 2017-18 Llywodraeth Cymru yn nodi dadansoddiad o'i gwariant blynyddol o £2.4 biliwn ar addysg na'r £1.3 biliwn ar economi a thrafnidiaeth a nodir yn ei Chrynodeb o'r Alldro Adnoddau. Dylai'r cyfrifon nodi gwybodaeth am y polisïau neu'r gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel y gall aelodau'r cyhoedd, a'r rhai sydd â rôl craffu, ganfod sut y mae arian trethdalwyr wedi'i wario. Mae hefyd yn galluogi'r rhai sy'n atebol am arian cyhoeddus i ddangos eu bod wedi ymgymryd â'u cyfrifoldebau cysylltiedig. Heb y wybodaeth hon, mae diffyg tryloywder; nid yw'n bosibl i'r cyhoedd asesu pa mor effeithiol y mae cyllid cyhoeddus wedi'i ddefnyddio; ac mae'n rhwystro gwaith craffu.

**119.** Fel gweinyddiaeth ddatganoledig, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i wneud pethau'n wahanol a chynnwys, yn ei chyfrifon, wybodaeth am faterion sy'n benodol i Gymru, megis y gofynion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried amcanion y Ddeddf mewn perthynas â gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y cyfrifon sy'n cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru, a gweddill y

sector cyhoeddus yng Nghymru, yn adlewyrchu'r arfer gorau. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau o arfer da a nodir yn Excellence in reporting in the Public Sector.[49]

**120.** Rydym yn credu bod gan Gymru gyfle i arwain y ffordd o ran cyflwyno adroddiadau ariannol. Wrth osod cyfarwyddyd y cyfrifon i ategu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM a, lle y bo'n briodol, y gofynion adrodd ariannol ar gyfer elusennau, gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyrff a noddir ganddi yn mabwysiadu safonau o'r fath. Byddai hyn yn sicrhau bod y cyfrifon sy'n cael eu llunio ar draws y sector llywodraeth ganolog yn bodloni'r egwyddor o dryloywder[50] a'r arfer gorau ym maes cyflwyno adroddiadau ariannol.

**121.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd yr argymhellion a nodwyd yn ei adroddiad ar graffu ar Gyfrifon 2016-17:

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i gydymffurfio â'r arfer gorau ym maes cyflwyno adroddiadau ariannol drwy gynnwys gwybodaeth am ei pherfformiad a mabwysiadu'r arfer hwn wrth lunio adroddiadau blynyddol a chyfrifon y flwyddyn nesaf, cyn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i gyrff a noddir ganddi. Dylai'r adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon, o leiaf, nodi sut y mae'r arian wedi'i wario a'r hyn y mae wedi'i gyflawni, gan gyfeirio at y targedau a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r perfformiad yn eu herbyn. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o wariant yn erbyn nodau "Ffyniant i Bawb" (a'r rhaglenni dilynol) a thargedau sefydliadol eraill yn y cyfrifon, yn gyson â'r gwariant yr adroddir arno yn y datganiadau ariannol.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn glir y gofynion y mae'n anelu at gydymffurfio â hwy wrth lunio ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon. Dylai hefyd fod yn glir ynghylch gofynion Cymru ar gyfer Adroddiadau Blynyddol a sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, gan gynnwys hi ei hun. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth ddigonol a phriodol gan alluogi gwaith craffu effeithiol.

## Tryloywder

**122.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru pa wybodaeth oedd yn cael ei darparu yn ei chyfrifon o ran y cymorth ariannol a ddarperir i fusnes. Yn benodol, gwnaethom nodi'r ymateb ysgrifenedig i gwestiwn a gyflwynwyd gerbron

[49] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Excellence in reporting in the Public Sector (Ebrill 2017)

[50] Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Paragraff 4.13.3 (Ionawr 2016)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Medi 2018[51] mewn perthynas â'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Aston Martin.

**123.** Fel rhan o hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru sicrwydd mewn perthynas â thalu rhent ar gyfer yr uwch awyrendy yn Sain Tathan, Bro Morgannwg, dros 30 mlynedd o 2016 pe bai Aston Martin Lagonda yn peidio â gweithredu o'r safle. Yn ei ymateb, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd fod hyn wedi'i ddatgelu drwy rwymedigaeth ddigwyddiadol yng Nghyfrifon 2017-18 Llywodraeth Cymru.

**124.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor fod rhwymedigaeth bosibl Llywodraeth Cymru yn y dyfodol pe bai angen iddi dalu'r rhent – neu ei rhwymedigaeth ddigwyddiadol – wedi'i chynnwys yn y cyfrifon. Adroddwyd yn y swm a bennwyd ar gyfer rhwymedigaethau digwyddiadol ar "hawliadau cyfreithiol a hawliadau contractiol eraill", a oedd hefyd yn adlewyrchu rhwymedigaethau posibl eraill Llywodraeth Cymru.

**125.** Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â swm y warant i Aston Martin ac a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gytundebau o'r fath â busnesau eraill.

**126.** Nododd y Pwyllgor hefyd, mewn perthynas ag Aston Martin, fod ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd i'r cwestiwn ysgrifenedig yn nodi nad yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cael gwybod am y warant gan mai dim ond os gelwir arni y bydd angen y warant. Nodwyd bod hyn yn ymddangos yn anghyson â'r dull gweithredu mewn perthynas â Chylchffordd Cymru, lle roedd y cytundeb yn dibynnu ar fodolaeth y warant.

**127.** Bryd hynny, gwrthododd yr Ysgrifennydd Parhaol roi rhagor o fanylion ar y ddau fater ar sail cyfrinachedd masnachol. Fodd bynnag, cytunodd i ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch pa wybodaeth, os o gwbl, y gellid ei rhannu â'r Pwyllgor.

**128.** Mewn gohebiaeth ddilynol,[52] nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlnol:

> "Gallaf gadarnhau bod gan Lywodraeth Cymru drefniadau gwarant yn eu lle mewn perthynas â thri phrosiect, gan gynnwys Aston Martin … Gallaf hefyd gadarnhau nad oes unrhyw drefniadau prif brydles yn adran rhwymedigaethau digwyddiadol cyfrifon Llywodraeth Cymru.

---

[51] Cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad (WAQ72217) (5 Hydref 2018)

[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-02-19 PTN2, 28 Ionawr 2019

> Y trefniant gydag Aston Martin yw'r unig warant yn ymwneud â thaliadau rhent, a dyma'r unig warant sydd wedi'i hymestyn dros gyfnod o 30 mlynedd. Mae'r ddau drefniant arall yn gwarantu benthyciadau dros gyfnod byrrach, gyda disgwyl i'r ddau ddod oddi ar ein cyfrifon fel rhwymedigaethau digwyddiadol erbyn mis Gorffennaf 2024 fan bellaf."[53]

**129.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd:

> "Rydym wedi ymgynghori â'r cwmnïau y mae gennym drefniadau gwarant â nhw, ac maent wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi manylion llawn y trefniadau gan eu bod yn ystyried eu bod yn sensitif yn fasnachol. Ar y sail honno, nid wyf yn bwriadu darparu rhagor o wybodaeth yn y llythyr hwn. Fodd bynnag, byddwn yn barod i edrych ar y posibilrwydd o weld swyddogion arweiniol yn briffio aelodau o'r Pwyllgor am y trefniadau hyn mewn sesiwn breifat, fel bod modd i ni roi mwy o eglurder yn gyfrinachol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y symiau dan sylw a sut mae'r gwarantau hyn yn cael eu cyfrif."[54]

***Safbwynt y Pwyllgor***

**130.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall y datgeliad presennol o wybodaeth am y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i fusnesau yn ei chyfrifon fodloni ei ofynion adrodd ariannol yn fanwl gywir. Fodd bynnag, fel y nodwyd hefyd yn ein hadroddiad "Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood"[55], mae atal gwybodaeth ariannol ar sail sensitifrwydd masnachol wedi bod yn bryder i ni ers amser maith. Rydym yn nodi'r angen am drafodaeth ehangach ynghylch pa wybodaeth y gellir ei chyhoeddi ar mwyn cyflawni awydd dilys am wybodaeth am y ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario. Rydym yn argymell, yn yr adroddiad hwnnw, yn ogystal â rhannu gwybodaeth â'r Pwyllgor hwn, y dylai swyddogion Llywodraeth Cymru ystyried pa wybodaeth y gellir ei chynnwys yn ei chyfrifon er mwyn sicrhau tryloywder heb ddigalonni darpar fuddsoddwyr. Byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach fel rhan o'n hymchwiliad gerllaw ar gyfer cymorth busnes Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa wybodaeth y gellir ei chynnwys yn ei chyfrifon er mwyn hyrwyddo

---

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-02-19 PTN2, 28 Ionawr 2019

[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-02-19 PTN2, 28 Ionawr 2019

[55] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, (Chwefror 2019)

tryloywder mewn perthynas â'r cymorth busnes a ddarperir heb ddigalonni darpar fuddsoddwyr.

## Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru

**131.** Dywedodd cyn Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth y Pwyllgor yn ei sesiwn ffarwél gyda'r Pwyllgor hwn ym mis Gorffennaf 2018[56] y dylai Llywodraeth Cymru lunio Cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru[57], gan nodi nad oes rheswm na ddylai Cymru wneud hynny a'i fod yn hanfodol er mwyn gwybod cyflwr yr holl asedau a rhwymedigaethau a'u heffaith ar genedlaethau'r dyfodol.

**132.** Trafododd y Pwyllgor bosibilrwydd llunio Cyfrif Llywodraeth Gyfan Cymru. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor nad oedd hyn yn rhywbeth y gofynnwyd amdano'n helaeth, ond y byddai yn sicr yn fodlon iawn ymgynghori â rhanddeiliaid eraill ynghylch a fyddai'n werth gwneud hynny.

**133.** Nododd y Pwyllgor fod Archwilydd Cyffredinol yr Alban yn llunio adroddiadau blynyddol ar archwilio Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth yr Alban[58] a'i bod, yn ddiweddar, wedi galw am fwy o dryloywder yng nghyfrifon blynyddol Llywodraeth yr Alban, gan awgrymu'r canlynol:

> "A consolidated account covering the whole public sector needs to be published to support Parliamentary scrutiny and enable better decision making. The account should include key assets and liabilities such as capital borrowing and pensions."[59]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**134.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru. Byddai'n helpu wrth greu darlun o'r genedl a byddai'n ffynhonnell wybodaeth bwysig ar gyfer cyflawni dyhead Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn awgrymu, o ystyried hyn, fod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i wella ei dealltwriaeth o rinweddau posibl cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Mae hyn yn

---

[56] Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2018, paragraff 423

[57] Mae cyfrif Llywodraeth gyfan yn atgyfnerthu cyfrifon archwiliedig holl sefydliadau perthnasol y sector cyhoeddus. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys awdurdodau lleol (nid yw cyfrifon cyfunol presennol Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn).

[58] Archwilydd Cyffredinol yr Alban, Archwiliad 2017/18 o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth yr Alban, (Medi 2018)

[59] Audit Scotland Datganiad i'r wasg, "Dylai adrodd cyfrifon y llywodraeth fod yn 'fwy tryloyw'", Audit Scotland.

arbennig o bwysig o ystyried ei gofynion trethu a benthyca newydd, yr ydym yn deall ei fod yn ffactor allweddol ar gyfer cais Senedd yr Alban am Gyfrifon Llywodraeth Gyfan yr Alban.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i wella ei dealltwriaeth o rinweddau posibl cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

## Staffio

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**135.** Mae Llywodraeth Cymru yn llunio nifer o gynlluniau corfforaethol sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb, sy'n cynnwys targedau ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth yn y sefydliad. Mae Cyfrifon 2017-18 yn adrodd mai 8.08 y cant yw bwlch cyflog y sefydliad rhwng y rhywiau, y nododd Llywodraeth Cymru ei fod yn is na bwlch cyflog y Gwasanaeth Sifil rhwng y rhywiau a gyhoeddwyd gan y SYG, sef 12.7 y cant[60] (yn seiliedig ar gyflogau cyfartalog). Gofynnodd yr Aelodau i Lywodraeth Cymru pa gamau a gymerwyd i ymdrin â diffyg cynrychiolaeth yn ei gweithlu. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fel a ganlyn:

> "Basically, what we've been doing is taking forward an action plan that is designed to attract and recruit senior women into the senior levels of the civil service of the Welsh Government. There's a whole range of things we're doing, from outreach, headhunting for jobs, but also making sure that our adverts are inclusively worded, that our panels, for interviews are properly made up, and are, essentially, gender friendly. We've also signed up to Chwarae Teg's Fair Play employer benchmarking service, and that's helping us develop an action plan to reduce the gender pay gap."[61]

#### *Safbwynt y Pwyllgor*

**136.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â'r materion hyn. Rydym yn credu y byddai gwaith craffu i sicrhau ei fod yn ddigon uchelgeisiol o fudd i'r cynllun gweithredu.

---

[60] Mae ystadegau diweddaraf y SYG (a gyhoeddwyd ar 3 Awst 2018) yn datgan mai 12.2 y cant yw bwlch cyflog y gwasanaeth sifil rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2018.

[61] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 95

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor ei chynllun gweithredu ar gyfer lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

## Absenoldebau staff

**137.** Dros y cyfnod a gwmpesir gan Gyfrifon 2017-18, cododd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn Llywodraeth Cymru i gyfartaledd o 8.0 diwrnod gwaith a gollwyd fesul gweithiwr (o 7.8 diwrnod gwaith yn 2016-17). Mae hyn yn cymharu â 7.0 diwrnod gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul blwyddyn ar draws Gwasanaeth Sifil y DU, 8.5 diwrnod ar gyfer y sector cyhoeddus a 5.2 yn y sector preifat.[62]

**138.** Gofynnodd y Pwyllgor am y rhesymau dros y cynnydd. Esboniodd y cyfrifon fod hyn oherwydd cynnydd mewn absenoldebau tymor byr, a briododd Llywodraeth Cymru i amodau tywydd eithafol yn bennaf.

**139.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod hyn wedi digwydd oherwydd bod staff yn cymryd absenoldeb oherwydd salwch ar ôl y cwymp eira. Ychwanegodd:

> "It's something that I am very concerned about. We've put in place a health and well-being strategy to try and tackle that … we're encouraging people to carry out physical or other activity that is going to help improve their well-being; we've also been carrying out a lot more outreach and direct personal contact with, particularly, people who have been on long-term sickness…We're drawing on best practice. We'll continue to review that. It continues to be a priority for me, and saying that it was partly due to extreme weather conditions isn't in any sense an underestimation of the seriousness with which we take it."[63]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**140.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ar ôl clywed bod lefel salwch staff Llywodraeth Cymru yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Gwasanaeth Sifil y DU. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Rydym yn nodi pwysigrwydd rheoli'r sefyllfa, gan gynnwys dadansoddi achosion absenoldeb oherwydd salwch, wrth sicrhau llesiant staff.

---

[62] Data Absenoldeb oherwydd Salwch y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 [Cyrchwyd 15 Chwefror 2019]

[63] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 80

## Pecynnau ymadael

**141.** Nododd y Pwyllgor fod Cyfrifon 2017-18 wedi nodi cynnydd sylweddol mewn pecynnau ymadael a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn. Ar gyfer 2017-18, cytunwyd ar 156 o becynnau ymadael, o gymharu hyn ag 21 yn 2016-17. Mae 44 (bron 30 y cant) o'r pecynnau hyn yn costio rhwng £50,000 a £100,000, gyda'r gweddill dan £50,000. Cyfanswm cost y pecynnau ymadael, yr oedd pob un ohonynt yn wirfoddol, oedd £5.9 miliwn, o'i chymharu â £709,000 yn 2016-17.

**142.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol y gallai'r cyfrifon fod wedi bod yn fwy penodol o ran y cynllun, ond mai ei nod oedd:

> "…to both reduce overall staff costs within the Welsh Government, because we were coming up against our limit, but also, just as importantly, to create headroom to take on people with new skills—digital, Brexit policy related, those kinds of skills, and also, importantly, apprentices …It looked very carefully at who we could afford to lose to make sure that we weren't losing people with the kinds of skills that we were then going to be recruiting for for the future. … So, by the end of May this year, we had actually covered the cost and created a bit of headroom so that we could recruit some more people with the skills that we're looking for for the future."[64]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**143.** O ystyried y defnydd o arian cyhoeddus, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud datgeliadau digonol yn ei chyfrifon i esbonio diben cynlluniau o'r fath. Dylai sicrhau bod y wybodaeth yn glir wrth nodi'r diben a'r gwerthoedd a, thrwy hynny, wella tryloywder ei chyfrifon.

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn helpu o ran tryloywder a hwyluso gwaith craffu, fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn ei chyfrifon yn y dyfodol i esbonio diben pecynnau ymadael a/neu gynlluniau diswyddo.

## Arbedion ac effeithlonrwydd

**144.** Mae Cyfrifon 2017-18 Llywodraeth Cymru yn nodi ei strategaeth leoli fel prosiect effeithlonrwydd allweddol, gyda £3.46 miliwn o arbedion yn y dyfodol yn cael eu nodi.

[64] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 63

**145.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oes gan Lywodraeth Cymru dargedau effeithlonrwydd. Fodd bynnag, nododd fod Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd wedi'i sefydlu gan y sawl a oedd yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd. Roedd gan hyn bedwar prosiect neu linyn - un o'r rhain oedd adolygiad, dan arweiniad Deloitte, o wasanaethau corfforaethol, gan edrych ar systemau adnoddau dynol, cyllid, llywodraethu corfforaethol a rheoli cyfleusterau.

***Safbwynt y Pwyllgor***

**146.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes gan Lywodraeth Cymru, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, darged effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod targedau cost/effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru yr adroddir arnynt yn y cyfrifon yn ymwneud â'i strategaeth leoli yn unig. Byddem yn disgwyl iddi osod targed arbedion sy'n adlewyrchu'r ystod eang o weithgareddau Llywodraeth Cymru ac sy'n cael eu cynnal a'u monitro ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau bod dull darparu cydgysylltiedig, trawslywodraethol.

**147.** Mae'r Pwyllgor yn nodi sefydlu Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd a byddai'n croesawu diweddariad mewn perthynas â'i waith, cyn iddo graffu ar gyfrifon 2018-19 Llywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys ei gylch gwaith, ei amcanion a'i gynnydd i'w cyflawni. Rydym hefyd yn gofyn, wrth lunio ei chyfrifon yn y dyfodol, fod Llywodraeth Cymru yn cynnwys darlun o weithgareddau effeithlonrwydd ar draws y sefydliad, a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ystod y sesiwn.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth yn ei hadroddiadau blynyddol a'i chyfrifon blynyddol am y gweithgareddau effeithlonrwydd ar draws ei sefydliad. Dylai hyn gynnwys ei halldro yn erbyn y targedau a bennwyd, gydag esboniad lle nad yw nodau perfformiad wedi'u cyrraedd.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu, cyn i'r Pwyllgor graffu ar ei chyfrifon ar gyfer 2018-19, ddiweddariad mewn perthynas â gwaith y Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd ac, yn benodol, y camau a weithredwyd o ganlyniad i adolygiad Deloitte o'i wasanaethau corfforaethol.

## Fframwaith Cymhwysedd Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru

**148.** Nododd y Pwyllgor hefyd fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi sefydlu menter Diogelu'r Dyfodol, a ddisgrifir yn y cyfrifon yn:

> "ddull hirdymor i feithrin gallu a sgiliau gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni Ffyniant i Bawb."[65]

**149.** Ymddengys fod y cymhellion ar gyfer y fenter hon yn canolbwyntio ar drefniadau staffio, megis sgiliau a pherfformiad. At hynny, mae Adroddiadau blynyddol 2017-18 Llywodraeth Cymru yn nodi bod blaenoriaethau Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn dod yn fwyfwy o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac y rhoddir effaith iddynt drwy Ffyniant i Bawb a menter Diogelu'r Dyfodol. Mae'r cyfrifon hefyd yn cyfeirio at weithdrefn hybu fewnol newydd i staff a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf eleni ar sail y cefndir hwn.[66]

**150.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru am y cynlluniau ar gyfer ei gweithdrefn hybu newydd ac a fyddai'n symud tuag at system newydd Gwasanaeth Sifil y DU, sef "Success Profiling". Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fel a ganlyn:

> "We are part of the UK civil service and we operate within the framework of the UK civil service, but that framework gives flexibility in a number of areas, and we use what we think is best for Wales and for this organisation. But we definitely operate within the framework provided by the Cabinet Office, but we have had a very good look, over the last year or so, at where we think it really works for Wales and where we think we could do something better."[67]

**151.** Aeth ymlaen i bwysleisio'r canlynol:

> "In tandem, we have also been looking at our promotion system. This year, this autumn, we're introducing an assessment centre for a particularly important grade that is a kind of gateway to the future and for that we have set out the kind of qualities we're looking for in people. We've also put out to the organisation the values and standards we expect. I got Sophie Howe, the Future Generations Commissioner for Wales, to give her views on the sorts of things that we were talking about in terms of values and standards for the organisation. So, a lot of messages about who are the people who are going to prosper in the future, who are the people we want at different grades throughout the organisation. There will be a very intensive process of assessment this autumn for one particular grade that is a really key one and we will

[65] Cyfrifon Cyfunol 2017-18 Llywodraeth Cymru Tudalen 19

[66] Cyfrifon Cyfunol 2017-18 Llywodraeth Cymru Tudalen 20

[67] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 117

> continue to roll out that kind of programme across the other key grades."[68]

**152.** Yn ei gohebiaeth ddilynol at y Pwyllgor,[69] nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fel a ganlyn:

> "Nid ydym o dan unrhyw ofyniad statudol i ddilyn y dull gweithredu ar gyfer Proffiliau Llwyddiant gan fod y cyfrifoldeb dros faterion staffio'r gwasanaeth sifil yn Llywodraeth Cymru (ac eithrio'r Uwch Wasanaeth Sifil) wedi'i ddirprwyo. Er hynny, mae Bwrdd Gallu a Thalent Llywodraeth Cymru wedi penderfynu, o ran egwyddor ac yn ddarostyngedig i ymgysylltu ac ymgynghori â'r Undebau Llafur, fabwysiadu Proffiliau Llwyddiant. Mae Swyddfa'r Cabinet yn Llywodraeth y DU yn gyfrifol am gyflwyno'r dull gweithredu yn raddol ar draws y Gwasanaeth Sifil ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Swyddfa'r Cabinet ynghylch rhoi hyn ar waith yn y flwyddyn galendr nesaf. Bydd angen amserlen rhywfaint yn hwy ar gyfer y gwaith gweithredu gan fod angen datblygu'r holl ddeunyddiau'n ddwyieithog ac i sicrhau cyfnod effeithiol o ymgysylltu ac ymgynghori ag undebau llafur a rhwydweithiau staff yn Llywodraeth Cymru."[70]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**153.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw "menter Diogelu'r Dyfodol" yn ymddangos yn annhebyg i gynllun a gynhaliwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol, "Parod at y Dyfodol". Nid yw'r Pwyllgor yn glir sut y mae'r fenter hon yn cyd-fynd â'r rhaglenni effeithlonrwydd a weithredir gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r rhaglenni hyn fod yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwella effeithlonrwydd y sefydliad, yn ogystal â hyrwyddo ei gapasiti a'i ystwythder.

**154.** Hefyd, nid yw'r Pwyllgor yn glir a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU. Awgrymodd tystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Pwyllgor ymadawiad ag arfer y DU i sicrhau ei fod yn rhywbeth sy'n gweithio ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, yn ei gohebiaeth ddiweddarach, ymddengys fod yr Ysgrifennydd Parhaol yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu dull Proffiliau Llwyddiant a sicrwydd

---

[68] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 121

[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-32-18 PTN3, 3 Rhagfyr 2018

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-32-18 PTN3, 3 Rhagfyr 2018

y bydd y rhain yn gweithio ar gyfer Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ar y mater hwn.

**Argymhelliad 25.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'r rhesymau dros newid trywydd a sut y mae "menter Diogelu'r Dyfodol" yn wahanol i "Parod at y Dyfodol", y cynllun a gyflwynwyd gan y cyn Ysgrifennydd Parhaol. Dylai hyn bennu sut y mae'r rhaglen newydd yn gweithio er mwyn gwella effeithlonrwydd y sefydliad, yn ogystal â datblygu ei gapasiti a'i ystwythder.

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro i'r Pwyllgor ei safbwynt o ran mabwysiadu Proffiliau Llwyddiant Gwasanaeth Sifil y DU a sut y bydd y rhain yn gweithio yng nghyd-destun Cymru, gan gynnwys y berthynas - neu fel arall - rhwng y dull gweithredu hwn a safonau a gwerthoedd ar gyfer hybu mewnol ar raddfeydd porth a ddatblygir gyda mewnbwn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a pha fframwaith sy'n cael blaenoriaeth.

## Rôl y Cyfarwyddwyr Anweithredol

**155.** Mae'r Adroddiad Taliadau, a gynhwysir yng Nghyfrifon 2017-18, yn nodi y gwnaed taliadau i un o Gyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd ar gyfer gwaith a gomisiynwyd yn Llywodraeth Cymru.

**156.** Gofynnodd y Pwyllgor a oedd hyn yn cynrychioli gwrthdaro buddiannau o ystyried mai rôl Cyfarwyddwyr Anweithredol yw darparu goruchwyliaeth annibynnol a her i'r Weithrediaeth.

**157.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor fod y Cyfarwyddwr Anweithredol wedi gwneud y canlynol:

> "… led a task and finish group for the Cabinet Secretary for Education, and it was felt that she had very strong credentials for doing that. She's a former Her Majesty's chief inspector and she has real expertise, real credibility. So, she led that group that was advising on the new National Academy for Educational Leadership. The academy got off the ground and she stood back from it, but I think we have benefited enormously from her expertise."[71]

**158.** Ychwanegodd:

[71] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 84

> "… it was very specifically commissioned work with a clear remit, a clear time limit, and, as such, we managed it outside of her role as a non-exec director."[72]

**159.** Ychwanegodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

> "… the secretariat for the board is responsible for making sure that they're aware of any interests that are declared by NEDs, because we ask all our non-executives to declare all their interests, and then the board secretariat is vigilant. Should somebody be coming to a board meeting that might actually represent a conflict, then it will discuss how they handle it with the member concerned."[73]

### Safbwynt y Pwyllgor

**160.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r rhesymau a roddwyd ar gyfer comisiynu gwaith gan Lywodraeth Cymru i un o'i Chyfarwyddwyr Anweithredol a'r mesurau sydd ar waith i liniaru unrhyw wrthdaro buddiannau. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn bwysig, er mwyn sicrhau ei hannibyniaeth wirioneddol a chanfyddedig, na ddylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ei Chyfarwyddwyr Anweithredol i ymgymryd â swyddogaethau y tu hwnt i'w rôl graidd.

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu goruchwyliaeth annibynnol a her i'r Weithrediaeth ac osgoi gwrthdaro buddiannau (gwirioneddol neu ganfyddedig), na ddylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ei Chyfarwyddwyr Anweithredol i wneud gwaith y tu hwnt i gwmpas eu rolau anweithredol.

## Adolygiad o drefniadau cyrff hyd braich

**161.** Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Parhaol adolygiad mewnol o drefniadau sy'n ymwneud â chyrff hyd braich, gan arwain at gyhoeddi cynllun gweithredu ym mis Ionawr 2018.

**162.** Rhoddodd gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor ym mis Medi 2018 ragor o wybodaeth am yr adolygiad. Ymysg trefniadau newydd eraill ar y gweill, mae'r llythyr yn nodi'r canlynol:

---

[72] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 86

[73] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 87

> "Cael gwared ar 'Weithdrefnau Galw i Mewn' h.y. gofyniad i'n Cyrff Hyd Braich gyfeirio penderfyniadau mewn categorïau penodol atom, megis tendrau unigol sydd uwchlaw trothwy penodol neu faterion newydd a dadleuol, i'w cymeradwyo. Bydd hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd i Lywodraeth Cymru o ran amser a dreulir yn darparu cyngor a chymeradwyaeth ac yn caniatáu i Brif Weithredwyr wneud penderfyniadau sy'n gyfrifoldeb iddynt yn eu rolau fel Swyddogion Cyfrifyddu."

**163.** Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod yr adolygiad hwn:

> "…of the relationship between the arm's-length bodies and the Welsh Government, not of the arm's-length bodies themselves, and the conclusion was that we needed to move to a much more strategic and mature relationship with them, partly through better communications but also giving much clearer accountability to the CEO of each arm's-length body, and that we also needed to spread best practice. We've set up a senior leaders forum to do that. It will meet three times a year. I attended the first one, and there was a great deal of enthusiasm for the opportunity to meet all the chief executives and chairs of the different arm's-length bodies, to get together and talk about best practice, priorities, concerns and so forth."[74]

**164.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru ymhellach am gael gwared ar "Weithdrefnau Galw i Mewn" a sut y byddai materion megis y rhai a ddigwyddodd yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu nodi yn y dyfodol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "… that has been one of the positive outcomes of the arm's-length body review, to make sure that we are giving very clear guidance and more support to them. We are communicating more regularly with them, we're setting out very clear guidance about expectations that we have, and, as I said, bringing them together three times a year for this forum to talk through priorities and share best practice, basically, on how we can manage public money most effectively."[75]

***Safbwynt y Pwyllgor***

**165.** Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch sut y byddai'r dull gweithredu newydd yn gweithio. Bydd cael gwared ar y mecanwaith galw i mewn yn lleihau'r

---

[74] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 166

[75] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 182

cyfleoedd i roi sicrwydd ynghylch camau gweithredu'r cyrff hyd braich. Mae'r gofyniad i adrodd ar benderfyniadau newydd, cynhennus neu adleisiol yn amddiffyn Llywodraeth Cymru a chyrff hyd braich. Nid yw'r Pwyllgor yn glir pam y gwnaed y penderfyniad hwn ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'n llawn sut y bydd yn cael sicrwydd llawn, wedi'i ddogfennu, am y materion yr adroddwyd arnynt o'r blaen drwy'r Weithdrefn Galw i Mewn.

## Rheoli grantiau

**166.** Trafododd y Pwyllgor Adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2017-18 fel rhan o'i waith craffu ar gyfrifon. Ar gyfer 2017-18, cysonodd Llywodraeth Cymru y trefniadau ar gyfer cyhoeddi ei hadroddiad rheoli grantiau blynyddol â'i chyfrifon.

**167.** Mae'r Adroddiad ar Reoli Grantiau (yr Adroddiad) yn nodi sut y defnyddiodd Llywodraeth Cymru grantiau wedi'u neilltuo yn ystod 2017-18. Cyfanswm y grantiau hyn oedd tua £2.8 biliwn (cyfanswm y buddsoddiad mewn grantiau oedd £14 biliwn).

**168.** Mae'r Adroddiad yn nodi y gwnaed cynigion newydd i 323 o gynlluniau (269 ohonynt wedi'u neilltuo) yn ystod 2017-18. Nododd adroddiad 2016 y gwnaed cynigion newydd i 418 o gynlluniau grant (yr oedd 354 ohonynt wedi'u neilltuo). Gofynnodd y Pwyllgor a oedd pryder ynghylch y gostyngiad mewn cynigion. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd pryderon wedi codi a bod y niferoedd yn anwadal. Esboniodd Gawain Evans fel a ganlyn:

> "… 323 is the total number of schemes where offers were made, so, effectively, the live schemes we had in 2017-18. There were another 43 grant schemes actually on our systems, because we have a grants recording system, but there were no offers made and we go through a cleansing arrangement with the policy teams, and because there were no—. There were no grant offers made, there weren't expected to be any made, so we actually cleansed those off the system."[76]

**169.** Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at gynllun peilot i "[g]anolbwyntio o'r newydd" ar y broses o ardystio grantiau yn ei hadroddiad 2016 ar reoli grantiau. Noda'r adroddiad fel a ganlyn:

[76] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 241

> "Y cynnig cyfredol yw canolbwyntio o'r newydd ar archwiliadau lefel drafodiadol trwy gyflawni rhaglen dreigl o waith yn hytrach na phrofi pob grant, bob blwyddyn ym mhob Awdurdod Lleol. Bydd hefyd elfen o brofi allbynnau/canlyniadau, yn unol â gofynion cynlluniau grant penodol ac offer adrodd cysylltiedig."[77]

**170.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol am hynt y cynllun peilot a gynhaliwyd yn Awdurdodau Lleol Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam. Esboniodd:

> "… the overall aim of that pilot was to test out how to get the right balance of assurance versus use of resources by both ourselves, WAO and local authorities in fact—you know, what was the right balance. We reviewed the outcome of those pilots and that approach that we took in the pilot has now been rolled out across all 22 local authorities for the 2017-18 financial year. Once we have the audit statements for that year, we will review very carefully to make sure that we're content with that process. But it seems to us to be a useful way of really focusing on the essentials without putting undue burdens on the local authorities."[78]

**171.** Nododd Llywodraeth Cymru y cynigion ar gyfer Model Gweithredu Targedau i'r Bwrdd Gwella Effeithlonrwydd. Mae'r Model hwn yn cynnig dwy swyddogaeth newydd sy'n ymwneud â grantiau:

- Panel Grantiau a Sicrwydd;
- Swyddogaeth Diwydrwydd Dyladwy Ganolog.

**172.** Mae'r Adroddiad yn nodi bod y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio i ddatblygu fel swyddogaeth diwydrwydd dyladwy ganolog. Mae Canolfan Diwydrwydd Dyladwy ar waith, sydd wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei defnyddio gan staff ar draws Llywodraeth Cymru, gyda 5,300 o gofnodion a grëwyd yn 2017-18 a mwy na 360 o staff yn cymryd rhan. Bydd y swyddogaeth diwydrwydd dyladwy yn darparu rôl gorfforaethol a gwiriadau o ran llywodraethiant a diwydrwydd dyladwy. Nod hyn yw osgoi dyblygu a gwella cysondeb.

**173.** Bydd y Panel Grantiau a Sicrwydd yn dwyn ynghyd randdeiliaid allweddol ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn "darparu cyngor, her a sicrwydd ar ddechrau cyfnod datblygu cynllun grant".

---

[77] Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2016

[78] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 243

**174.** Mae'r Adroddiad yn nodi bod y gwaith i weithredu'r panel sicrwydd a'r swyddogaeth diwydrwydd dyladwy ganolog wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2018.

**175.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch rôl y Paneli Sicrwydd Grantiau a'r berthynas â grwpiau eraill, megis y Grŵp Llywodraethu Da. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fel a ganlyn:

> "The grants assurance panel is there really to give advice and support, bringing together expertise from across the Welsh Government to people who are developing new grant schemes—not just the individual applications for an existing grant, but new schemes. So, it's a panel that will give advice, it's chaired by David [Richards], it brings together the grants centre of excellence, state-aid team, legal services, internal audit, tax experts and our Cabinet office, as well as the relevant policy teams."[79]

**176.** Gofynnodd y Pwyllgor hefyd sut y bydd y swyddogaeth dilysrwydd dyladwy ganolog yn gweithio ochr yn ochr â dilysrwydd dyladwy'r prosiect mewn timau polisi. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi dilyn argymhelliad blaenorol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus er mwyn deall y swyddogaeth dilysrwydd dyladwy'n well, ac esboniodd:

> "What we're doing is pulling together a team so that the due diligence work that protects Welsh Government from fraud and so forth is streamlined into one location. That due diligence function brings together experts who are then able to feed into the process of an application, and they will provide checks on organisations and give advice on the quality of the organisation that is claiming funding. But you're quite right: there will remain due diligence functions in each policy team. We don't want to strip that out totally, we want to centralise and streamline as far as possible but without taking away individual responsibility."[80]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**177.** Mae'r Pwyllgor yn nodi na nododd yr Adroddiad faterion arwyddocaol a bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno nifer o fesurau i wella'r broses rheoli grantiau. Byddwn yn monitro hynt y datblygiadau hyn ac yn disgwyl diweddariad yn y cylch adrodd nesaf ar grantiau.

---

[79] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 251

[80] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 253

**178.** Rydym yn croesawu'r cadarnhad gan yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi treulio amser gyda'r rhai sy'n gyfrifol am y swyddogaeth diwydrwydd dyladwy a byddem annog pob swyddog cyfrifyddu i ymgymryd â datblygiad tebyg.

**179.** Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r adroddiad rheoli grantiau gyd-fynd â'r Adroddiadau blynyddol a'r Cyfrifon. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddefnyddiol i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi ar yr un pryd gan fod hynny'n cynyddu darllenadwyedd a thryloywder. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, awgrymodd yr Ysgrifennydd Parhaol, pe bai'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol, y gellid cynnwys y wybodaeth hon yn yr adroddiadau blynyddol.

**180.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod y wybodaeth yn yr adroddiad rheoli grantiau er budd y cyhoedd yn ehangach, ond hefyd yn cydnabod bod rhywfaint o orgyffwrdd â materion sydd eisoes wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon. Byddem yn fodlon gweld yr adroddiad rheoli grantiau wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon mewn rhyw ffordd ar yr amod bod o leiaf lefel gyfatebol o dryloywder ynghylch gwariant grantiau Llywodraeth Cymru, datblygiadau sefydliadol allweddol sy'n berthnasol i reoli grantiau a thystiolaeth nodedig mewn perthynas â digonolrwydd (neu fel arall) rheolaethau mewnol.

**181.** Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch y Panel Grantiau a Sicrwydd, sy'n swnio fel datblygiad rhesymol i gynyddu sicrwydd. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn aneglur ynghylch rôl barhaus y Grŵp Llywodraethu Da ehangach a sut y mae hyn yn gweithio gyda'r panel sicrwydd grantiau.

## Cronfeydd Strwythurol yr UE

**182.** Mae un o brif effeithiau Brexit ar Gymru yn ymwneud â'r arian a geir drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru drwy Gronfeydd Strwythurol. Dan Raglen 2014-20, bydd Cymru yn cael oddeutu £2.1 biliwn o arian gan yr UE drwy ei Gronfeydd Strwythurol.

**183.** Mae Adroddiadau blynyddol ar Grantiau 2017-18 Llywodraeth Cymru yn nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â Chronfeydd Strwythurol yng Nghymru dan Raglen 2014-20. Mae'r Adroddiad yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd 2017-18 ac yn pwysleisio effaith ymadawiad y DU â'r UE ar Gronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Ym mis Awst 2018, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) adroddiad[81] a oedd yn ystyried a oedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd

[81] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE, (Awst 2018)

Cymru (WEFO) yn rheoli'n effeithiol y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a wynebir oherwydd Brexit. Darparodd Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sefyllfa ddiweddarach ar y Cronfeydd Strwythurol ac effaith Brexit.

**184.** Yn gyffredinol, canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn:

- Er gwaethaf ymdrechion positif WEFO i ymrwymo holl gyllid yr UE cyn Brexit, wynebodd Cymru risg sylweddol o golli rhywfaint o gyllid mewn senario dim cytundeb heb i Lywodraeth y DU ddiwygio telerau ei gwarant;[82]
- Mae WEFO wedi cynnal archwiliadau cadarn er gwaethaf ei bwriad i gymeradwyo prosiectau'n gyflymach a gwario'r cyllid cyn Brexit;
- Nid yw'n glir eto beth fydd yn disodli'r Cronfeydd Strwythurol ar ôl Brexit, ond mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ceisio llywio'r ddadl.

**185.** Er na wnaeth yr adroddiad argymhellion ffurfiol, tynnodd sylw at faterion allweddol i WEFO a Llywodraeth Cymru eu rheoli:

- Ystyried newidiadau economaidd ehangach, gan gynnwys mewn cysylltiad â Brexit, ac addasu'r rhaglen mewn ymateb i hyn, pan fo angen;
- Cynyddu cyfraddau neilltuo, gweithio gyda noddwyr prosiectau posibl i fynd i'r afael â phryderon, gan gynnwys yr arian cyfatebol sydd ar gael;
- Cynyddu'r gyfradd wario trwy annog prosiectau i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer cyllid yr UE yn fwy prydlon;
- Gweithio gyda noddwyr prosiectau i leihau tanwariant y prosiectau a allai arwain at Gymru yn colli cyllid;
- Recriwtio a chadw staff ar adeg pan fo ansicrwydd sylweddol ynghylch rhai o'r swyddi yn WEFO, a'r cynnydd posibl yn y llwyth gwaith o ganlyniad i gyflymu asesiadau prosiectau;

[82] Pan ddechreuodd yr Archwilydd Cyffredinol ar y gwaith hwn, roedd y warant a roddwyd gan Lywodraeth y DU yn gyfyngedig i brosiectau y cytunwyd arnynt cyn Brexit. Dan y warant hon, roedd risg sylweddol y byddai Cymru yn colli cyllid. Fodd bynnag, ddiwedd mis Gorffennaf 2018, ar ôl i ni rannu ein hadroddiad drafft â Thrysorlys EM i gadarnhau cywirdeb ffeithiol, estynnodd Llywodraeth Cymru y warant i gynnwys dyraniad Cymru (a gweddill y DU) o'r Cronfeydd Strwythurol dan gyfnod cyllideb hwn yr UE hyd at 2020.

- Cynnal prosesau rhwystrau a gwrthbwyso cadarn;
- Sicrhau wrth drosglwyddo i unrhyw gynllun newydd yn lle'r cronfeydd strwythurol, y cedwir arbenigedd WEFO naill ai yn y rhaglen newydd neu yng ngwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru.

**186.** Mae Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at ansicrwydd ynghylch union natur gwarant gwariant Llywodraeth y DU ynghylch y dyraniad ar gyfer Cronfeydd Strwythurol dan gyfnod cyllideb hwn yr UE hyd at 2020. Trafododd y Pwyllgor natur y warant hon a pha mor sicr y dylem fod y bydd yr arian ar gael. Dywedodd Peter Ryland, Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, fel a ganlyn:

> "The Treasury guarantee at the moment tells us that they will honour any commitments that we have made—any contractual commitments, effectively, made by the date of their cut-off, which was originally March next year and is now December 2020. That is our main concern, actually, in respect of this guarantee: that it is in respect of those individual commitments. Now, whether there's a transition deal or not, we actually have until the end of December 2023 to deliver all of these projects that have been approved."[83]

**187.** Aeth ymlaen i esbonio mai'r gwahaniaeth rhwng cytundeb pontio a dim cytundeb oedd:

> "… we will be able to retain some flexibility to manage those projects as a coherent programme beyond the end of December 2020 or we won't. If we have to rely on the Treasury guarantee, the expectation is that each of those projects will be frozen as it is at that point, which gives us no room to manoeuvre if some of those projects are underperforming or if we find other opportunities to do other things elsewhere, and all of the usual programme management tools will no longer be at our disposal. That increases the risk, effectively, of not being able to deploy all of the potential funding that we will have because if there is a project that runs into trouble for one reason or another, we can't then redeploy that funding somewhere else."[84]

**188.** Yn ystod sesiwn y Pwyllgor ym mis Hydref 2018, pwysleisiodd Peter Ryland mai'r cwestiwn mawr sydd heb ei ddatrys yw:

[83] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 268

[84] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 269

> "...when will they set a value on the guarantee, and what mechanism will they use to establish what that value should be, because rather than just plucking a figure out of thin air, what are they going to use and at what point will that decision be made?"[85]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**189.** Croesawodd y Pwyllgor y dystiolaeth gan WEFO ar gronfeydd strwythurol yr UE, a oedd yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol i ni.

**190.** Mae gennym bryder o hyd ynghylch amwysedd parhaus union delerau'r warant hon, a'r ansicrwydd sy'n deillio o hyn. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, crynhodd Peter Ryland y materion fel a ganlyn

> "... are they going to support the overall value of the programmes, or are they just going to support the individual projects as they stand at the end of December 2020? Where is the funding coming from for this guarantee exactly? Does it have other impacts on the Welsh block and so on?"[86]

**191.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hon yn sefyllfa anfoddhaol iawn ac yn pryderu am yr effaith y gall hyn fod wedi'i chael ar brosiectau posibl sy'n cael eu datblygu. Mae'n rhwystredig bod ansicrwydd ynghylch telerau'r warant, a byddai'n siomedig iawn os na chaiff ei wireddu yn y telerau a awgrymir yng nghyhoeddiad y trysorlys ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ysgrifennu at Drysorlys Ei Mawrhydi i geisio'r eglurder angenrheidiol ynghylch amwysedd y warant hon.

[85] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 333

[86] Cofnod y Trafodion, 15 Hydref 2018, paragraff 264

# 4. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## Cefndir

**192.** Dyma'r ail dro y mae'r Pwyllgor wedi craffu ar gyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon). Craffwyd ar y cyfrifon gyntaf gan y Pwyllgor yn 2013-14 yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

**193.** Gosodwyd cyfrifon yr Ombwdsmon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Gorffennaf 2018 a chraffodd y Pwyllgor arnynt ar 8 Hydref 2018.

## Perfformiad Ariannol a Gweithredol

**194.** Nododd y Pwyllgor fod adroddiad perfformiad yr Ombwdsmon yn canolbwyntio ar lwyth achosion yr Ombwdsmon: nifer y cwynion; yr amser a gymerir i drin achosion (neu'r "amseroedd penderfynu"); a rhoi terfyn ar gwynion. Nid oedd yn glir a yw'r targedau y mae'r perfformiad yn cael ei feintioli a'i adrodd yn ei erbyn yn ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) yr Ombwdsmon neu, os nad ydynt, ar ba sail y maent wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad.

**195.** Wrth drafod y pryderon hyn, gofynnodd y Pwyllgor i'r Ombwdsmon pa gamau yr oedd wedi'u cymryd i sicrhau bod ei gyfrifon yn hawdd i'r cyhoedd eu deall. Esboniodd Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fel a ganlyn:

> "I hope that we've been very open and upfront in terms of our KPIs, and in particular on casework. But that's not to say that we haven't made progress in other areas, including the strategic plan, which will be coming to an end towards the end of this year."[87]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**196.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith a wnaed i ddatblygu cynllun strategol tair blynedd yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, rydym yn credu y gallai cyfrifon yr Ombwdsmon adrodd yn gliriach ac yn fwy effeithiol ei amcanion a'i berfformiad yn eu herbyn. Gan gysylltu â'r gwariant yr aed iddo ac a adroddir yn y datganiadau ariannol, dylai adrodd ar berfformiad yn erbyn y targedau a bennwyd yng Nghynlluniau Gweithredol a Strategol tair blynedd yr Ombwdsmon, yn ogystal â

[87] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 255

nodi ei gynlluniau a'i dargedau yn y dyfodol. Dylai'r adroddiad perfformiad hefyd esbonio pam na chyrhaeddwyd targedau a rhoi gwybodaeth am y camau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfrifon yr Ombwdsmon yn adrodd ar ei berfformiad yn gliriach ac yn fwy effeithiol. Dylai hyn gydymffurfio â'r arfer gorau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol, gan nodi perfformiad yr Ombwdsmon o gymharu â'i amcanion, gan gynnwys y rhai yn ei Gynlluniau Gweithredol a Strategol tair blynedd, yn ogystal â nodi ei gynlluniau a'i dargedau ar gyfer y dyfodol.

## Staffio

### Perfformiad staff

**197.** O ystyried ei sylwadau am y llwyth achosion cynyddol hwn, ceisiodd y Pwyllgor safbwynt yr Ombwdsmon ar ei strwythur staffio a'r weledigaeth ar gyfer datblygu ei swyddfa.

**198.** Cydnabu'r Ombwdsmon fod ei swyddfa'n mynd ati i weithio ar dargedau perfformiad, gan geisio gweithio'n glyfrach a dileu biwrocratiaeth ddiangen.[88] Esboniodd hefyd ei fod yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, a'u bod hefyd yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth reoli llwyth achosion cynyddol yr Ombwdsmon.

**199.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn ystod 2017-18, fod yr Ombwdsman wedi cynnal adolygiad o'i system rheoli perfformiad. Esboniodd Katrin Shaw, Cyfarwyddwr Polisi, Materion Cyfreithiol a Llywodraethu yr Ombwdsman, fod newidiadau wedi'u cyflwyno oherwydd yr adolygiad hwn. Roedd y rhain wedi newid y ffocws i aelodau staff unigol fod yn gyfrifol am eu datblygiad eu hunain, yn hytrach na bod dan arweiniad rheolwr. Esboniodd y byddant yn olrhain dilyniant drwy'r swyddfa pan fydd cyfleoedd yn codi yn y dyfodol. Wrth wneud hyn, maent yn gobeithio y bydd gwelliant mewn perfformiad allbwn, yn enwedig mewn perthynas â'u gwaith achos.

#### *Safbwynt y Pwyllgor*

**200.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn hanfodol bod perfformiad yn cael ei reoli'n gadarn a bod mesurau i gymell datblygiad parhaus, annog cynhyrchiant, arbedion effeithlonrwydd ac ymgysylltu â staff. Rydym yn croesawu adolygiad yr

[88] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 333

Ombwdsmon o'i system rheoli perfformiad. Rydym yn gobeithio y bydd yn parhau i gael ei monitro a'i gwerthuso'n effeithiol.

## Arolwg staff

**201.** Esboniodd yr Ombwdsmon fod ei swyddfa'n ceisio annog cyfranogiad staff drwy ei ddulliau gweithio a thrwy weithredu arolwg staff blynyddol. Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor fod canlyniadau'r arolwg diweddaraf yn dangos yr ymatebodd 93 y cant o staff i ddweud eu bod yn falch o weithio i'r Ombwdsman; dywedodd 89 y cant ei fod yn lle da i weithio; ac, yn yr un modd, roedd 89 y cant yn ymrwymedig i'r nodau corfforaethol.

**202.** Ar gyfer y meysydd a sgoriodd yn llai cadarnhaol neu uchel, esboniodd yr Ombwdsmon fod ei swyddfa'n deall fel a ganlyn:

> "… that there's pressure on increasing case load, but we're trying to support people through that. We need to look at resources."[89]

**203.** Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor hefyd fod ei swyddfa'n ceisio gwneud hyn drwy fuddsoddi'n effeithiol mewn systemau TG a thrwy gefnogi staff wrth ymdrin ag achwynwyr anodd, ymosodol neu ddifrïol.

### ***Safbwynt y Pwyllgor***

**204.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod manteision cynnal arolwg staff i gasglu gwybodaeth ac yn croesawu bwriad yr Ombwdsmon i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. O ystyried y dystiolaeth a rannwyd mewn perthynas â'r pwysau ar staff sy'n deillio o'r llwyth achosion cynyddol, rydym yn annog yr Ombwdsmon i ddefnyddio canlyniadau'r arolwg yn gynhyrchiol ac yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio adnoddau'n effeithiol wrth ymateb i'r materion allweddol a nodwyd.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**205.** Mae Cyfrifon 2017-18 yr Ombwdsmon yn cynnwys ei Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, sy'n nodi data mewn perthynas â chyfansoddiad ei weithlu. Dangosodd hyn mai menywod yw dros 70 y cant o'r 65 o aelodau o staff yr Ombwdsmon (gan gynnwys y rhai sy'n absennol oherwydd mamolaeth/mabwysiadu).

**206.** Yn ei Gyfrifon ar gyfer 2017-18, nododd yr Ombwdsmon na fu amcan cydraddoldeb penodol ar gyfer rhyw a chyflog oherwydd:

---

[89] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 357

> "… mae cynrychiolaeth dda iawn o fenywod yn y graddfeydd cyflog uwch yn fy swyddfa."[90]

**207.** Nododd y Pwyllgor mai £60,000 neu fwy yw'r cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer nifer gyfartal o staff gwrywaidd a benywaidd (2 aelod o staff). Dywedodd yr Ombwdsmon:

> "In terms of equality, I think we're performing well, in the sense that, of the six highest earners in the office, 50 per cent are women and 50 per cent are men. I haven't checked these figures out with the rest of the public sector, but looking over at colleagues there, I would say that I would be surprised to find that level of balance anywhere else in the public sector."[91]

### Safbwynt y Pwyllgor

**208.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr Ombwdsmon wedi cyflawni, mewn termau absoliwt, gydraddoldeb rhwng y rhai sy'n ennill y cyflogau uchaf yn ei swyddfa. Fodd bynnag, o ystyried cydbwysedd y staff yn ôl rhyw, mae hyn yn cynrychioli cyfran fwy o lawer o staff gwrywaidd (gwrywaidd: 12 y cant, benywaidd: 4 y cant). Mae hyn hefyd yn wir o ystyried y cyflog cyfwerth ag amser llawn mwy na £50,000: mae 5 (neu 29 y cant) o aelodau gwrywaidd o staff yn ennill mwy na £50,000, o gymharu hyn â 3 (neu 6 y cant) o aelodau benywaidd o staff. Mae hyn yn golygu bod cyflog cyfwerth ag amser llawn 94 y cant o staff benywaidd yn llai na £50,000, o gymharu hyn ag 71 y cant o staff gwrywaidd.

**209.** Mae'r Pwyllgor yn nodi, wrth ddatgelu'r rheswm dros beidio â gosod amcan, fod yr Ombwdsmon yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn annog yr Ombwdsmon i barhau i adolygu hyn ac ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws pob graddfa gyflog.

## Arbedion Cyffredinol ac Arbedion Effeithlonrwydd

**210.** O ystyried honiad yr Ombwdsman yng Nghyfrifon 2017-18 y "cymerwyd camau breision dros y blynyddoedd diwethaf i wella effeithlonrwydd o ran sut rydym yn ystyried cwynion", gofynnodd y Pwyllgor am fanylion a holodd sut y mesurwyd yr arbedion effeithlonrwydd.

[90] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, (Tudalen 37)

[91] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 339

**211.** Synnodd y Pwyllgor ar ôl clywed nad oes gan yr Ombwdsmon darged arbedion. Er ei fod yn nodi cyfeiriad at bwysau ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor yn credu mai dim ond drwy ddull gweithredu strategol y cyflawnir gwir arbedion.

**212.** Clywsom sut y mae'r sefydliad yn ymgorffori technoleg drwy weithio tuag at ddod yn sefydliad di-bapur a lleihau'r defnydd o drydan a'i gost drwy osod goleuadau LED. Esboniodd yr Ombwdsmon fel a ganlyn:

> "I think we're down to £9 a square foot for our office costs, so we're very efficient, very economically efficient, in terms of our rate per square foot of office space."[92]

**213.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wneir gan yr Ombwdsmon wrth wella effeithlonrwydd drwy ddefnyddio technoleg ac mae'n gobeithio y bydd y sefydliad yn parhau i wneud cynnydd yn y maes hwn. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad oes gan yr Ombwdsmon dargedau ar waith yn yr hinsawdd ariannol bresennol i hyrwyddo arbedion cyffredinol ac arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Byddem yn disgwyl i'r Ombwdsmon osod targed arbedion sy'n adlewyrchu'r ystod eang o'i weithgareddau, sy'n cael eu monitro ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau bod dull darparu cydgysylltiedig.

**Argymhelliad 30.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn gosod targedau ar gyfer arbedion cost i adlewyrchu'r ystod lawn o'i weithgareddau. Dylid adrodd ar berfformiad ar sail y targedau hyn bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Datblygu TGCh a digidoleiddio

**214.** Adroddodd Cyfrifon 2017-18 fod yr Ombwdsmon wedi "buddsoddi adnoddau sylweddol" mewn adnewyddu ei system rheoli gwaith achos a'i "gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol" a datblygu gwefan a mewnrwyd newydd. Gofynnodd y Pwyllgor am faint y buddsoddiad hwn. Esboniodd David Meaden, Cyfrifydd Ariannol yr Ombwdsmon, fel a ganlyn:

> "We have a new supplier for our IT support, at a saving of about £20,000 to £25,000 a year, which is based locally, rather than in Scotland as it was before. We awarded our case management system contract to our existing supplier, despite a full European tender. Our main expenditure in the annual report and accounts was on the new website. We spent

[92] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 279

approximately £70,000 on a new website, new intranet—a complete rebuild of our system."[93]

**215.** Ychwanegodd nad menter arbed costau oedd datblygiadau o'r fath. Yn hytrach, drwy wella lincs i daflenni ffeithiau eraill a chyrff eirioli a chael ffurflen gwyno ar-lein ryngweithiol newydd, roedd yr Ombwdsman yn gobeithio gwella hygyrchedd ei wefan.

***Safbwynt y Pwyllgor***

**216.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch sut y bydd yr Ombwdsman yn mynd ati i gyrraedd y rhai na allant gael mynediad at y dechnoleg. Fodd bynnag, rhoddodd yr Ombwdsmon sicrwydd i'r Pwyllgor, er bod y buddsoddiad yn gwella'r effeithlonrwydd gweinyddol, y byddai'r dulliau cyfathrebu presennol yn parhau ac yn hwyluso mynediad at wasanaethau'r Ombwdsmon i holl aelodau'r cyhoedd.

## Llywodraethiant a Rheolaeth Fewnol

### Rheoli risg

**217.** Trafododd y Pwyllgor drefniadau rheoli risg yr Ombwdsmon. Nododd Cyfrifon 2017-18 na nodwyd meysydd sylweddol o wendidau rheolaeth fewnol ac yr ystyriwyd bod lefel gyffredinol y risg yn "yn isel ac, at ei gilydd, yn ddisymud".[94] Fodd bynnag, yn groes i hyn mae'n debyg, mae Cyfrifon 2017-18 hefyd yn nodi tair risg a ddosbarthwyd fel coch neu risg uchel. Esboniodd Katrin Shaw fel a ganlyn:

> "The three that have been identified are probably very similar, I think, to many other public organisations … We're certainly always managing those risks and ensuring that our processes are in place and our ARAC committee was very keen on that, that we have these safeguards in place."[95]

**218.** Ychwanegodd:

> "The other serious risk at the moment is the casework function that we've spoken about. It certainly is very pressurised at the moment. We are monitoring that monthly. It's fairly unusual for us to feel such a pressure on our case load as a result of the health impact we've been talking about. We've got the action plan in place and we hope that

[93] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 383

[94] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, (Tudalen 57)

[95] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 374

> improvements will develop. You know, we've already seen … some improvements in that. So, it may be that we'll review that."[96]

***Safbwynt y Pwyllgor***

**219.** O ystyried y risgiau sylweddol a gafodd eu nodi a'u hadrodd, mae'r Pwyllgor yn synnu bod yr Ombwdsmon yn datgan, yn ei Gyfrifon ar gyfer 2017-18, fod y risg gyffredinol yn isel. Mae'n bwysig bod yr asesiad cyffredinol, fel y'i nodir yn y cyfrifon, yn adlewyrchiad cywir o'r risgiau a nodwyd. Fel y cyfryw, rydym yn nodi ac yn croesawu'r awgrym – yn ystod y sesiwn dystiolaeth – fod hyn yn rhywbeth y byddai swyddfa'r Ombwdsmon am ei adolygu.

## Y Trefniadau Llywodraethu

**220.** Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Ombwdsmon yn nodi'r trefniadau llywodraethu a oedd ar waith ar gyfer 2017-18.[97]

**221.** Roedd yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys disgrifiad byr o'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC). Roedd cylch gorchwyl y Panel Cynghori yn cynnwys helpu'r Ombwdsmon i sefydlu trefniadau llywodraethu a chyda'r adolygiad monitro risg a rheolaeth. Nododd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fod ARAC yn gyfrifol am gefnogi'r Ombwdsman i adolygu "pa mor gynhwysfawr a dibynnol yw'r sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, amgylchedd rheoli a didwylledd datganiadau ariannol a'r adroddiadau blynyddol".

**222.** Mae'r Ombwdsmon wedi adrodd,[98] er ei fod yn parhau i fynd i gyfarfodydd y ddau Bwyllgor, nad oedd bellach yn aelod o'r Panel Cynghori ac nad oedd yn cadeirio'r cyfarfodydd: erbyn hyn Jonathan Morgan, sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr Ombwdsmon, sy'n eu cadeirio. Adroddodd yr Ombwdsmon fod y newid i'r trefniadau o ran Cadeirydd "yn amlygu annibyniaeth y ddau fel ffynonellau o graffu, herio a chyngor i'r Ombwdsmon".

**223.** Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yn briodol mai'r un peth, yn y bôn, yw Aelodau'r Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Esboniodd Katrin Shaw fod yr Ombwdsman wedi gwneud y canlynol:

---

[96] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 375

[97] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, (Tudalennau 52 i 63)

[98] Tystiolaeth Ysgrifenedig, PAC(5)-26-18 P5, 8 Hydref 2018

> "… recently undertook a review of the governance arrangements. They are now stand-alone committees, but the independent members are members of both those committees. In terms of the scrutiny role versus the advisory role, they are very different, but we do have safeguards in place in terms of their audit and risk assurance committee roles."[99]

**224.** Nodwyd bod y trefniadau llywodraethu'n broblem gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Pedwerydd Cynulliad, a ofynnodd a oeddent yn adlewyrchu annibyniaeth ddigonol. Dywedodd Rheolwr Polisi a Chyfathrebu yr Ombwdsmon ar y pryd wrth yr Aelodau fod y disgrifiad swydd yn esbonio bod gan Gadeirydd ARAC fynediad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd unrhyw beth anffodus yn digwydd. Er gwaethaf y dystiolaeth hon, argymhellodd y Pwyllgor fod y trefniad hwn wedi'i ffurfioli. Pan ofynnodd y Pwyllgor a wnaed hyn, dywedodd Katrin Shaw:

> "… the chair of the ARAC and advisory attends good-practice workshops—they know they can report directly to the Chair of the Finance Committee or, indeed, this committee if they have any concerns. They're also a named point of contact under our whistleblowing policy. So, staff know they can report any concerns directly to the chair as well. So, we feel that that does provide a safeguard for the corporation sole status of the ombudsman."[100]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**225.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newid i Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, nid yw hyn, ar ei ben ei hun, yn ymdrin â'n holl bryderon blaenorol ynghylch annibyniaeth y trefniadau hyn.

**226.** Nid ydym yn glir sut y mae'r Ombwdsmon yn cael y sicrwydd angenrheidiol bod ARAC yn cyflawni ei gylch gorchwyl o ystyried bod ei aelodau'n dod o'r Panel Cynghori. Mae hyn yn golygu bod ei Aelodau yn gyfrifol am helpu'r Ombwdsman wrth sefydlu trefniadau llywodraethu ac am helpu'r Ombwdsmon i adolygu a yw'r trefniadau'n gynhwysfawr ac yn ddibynadwy.

**227.** Rydym yn credu y byddai'r trefniadau llywodraethu yn Swyddfa'r Ombwdsmon yn cael eu hatgyfnerthu drwy gynnwys aelod annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg nad yw hefyd yn aelod o'r Panel Cynghori.

---

[99] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 364

[100] Cofnod y Trafodion, 8 Hydref 2018, paragraff 372

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth, fod yr Ombwdsmon yn penodi aelod annibynnol i'w Banel Cynghori nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Taliadau arbennig

**228.** Mae Cyfrifon 2017-18 yn nodi bod yr Ombwdsman wedi gwneud tri thaliad, sy'n £94,000 i gyd, i staff a adawodd ei gyflogaeth yn ystod 2017-18. Ni nodir gwybodaeth arall yng Nghyfrifon 2017-18 mewn perthynas â'r taliadau hyn.

**229.** Ceisiodd y Pwyllgor wybodaeth am y taliadau. Dywedodd yr Ombwdsmon wrth y Pwyllgor, oherwydd rhwymedigaeth gontractiol, na allai drafod manylion y taliadau ond rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor ei fod wedi cael cyngor cyfreithiol ac Adnoddau Dynol priodol a chymeradwyaeth.

**230.** Mae'r Pwyllgor yn deall bod y swm a ddatgelwyd yn ymwneud â thri thaliad ar wahân a bod pob un wedi bod yn ddarostyngedig i gymal cyfrinachedd.

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**231.** Mae'r Pwyllgor yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol bod y cyfrifon wedi'u llunio yn unol â gofynion adrodd ariannol. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod – er budd tryloywder a datgeliad agored er budd y cyhoedd – yn bwysig bod cyrff cyhoeddus yn rhoi digon o wybodaeth yn eu cyfrifon i esbonio'r sefyllfa a, thrwy hynny, wella dealltwriaeth a hwyluso gwaith craffu. Mae'r Pwyllgor yn nodi, wrth wneud datgeliadau o'r fath, fod angen i gyrff cyhoeddus fod yn ymwybodol o faterion sy'n gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio hyn fel sail dros beidio â rhoi dim gwybodaeth o gwbl.

**232.** Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos yr Ombwdsmon gan nad yw'n ofynnol iddo, oherwydd ei fod yn annibynnol ar y llywodraeth, geisio cymeradwyaeth Weinidogol na chymeradwyaeth arall ar gyfer taliadau sydd y tu allan i drefn arferol y busnes (neu daliadau arbennig).

**233.** Mae'r Pwyllgor o'r farn, er budd tryloywder a heb dorri cyfrinachedd, y gallai'r cyfrifon fod wedi cynnwys mwy o wybodaeth er mwyn galluogi defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill i ddal yr Ombwdsmon i gyfrif. Er enghraifft, nid yw'n amlwg o'r Cyfrifon a oedd y taliadau hyn yn dri thaliad gwahanol i bobl wahanol.

**234.** Mae gennym bryder hefyd ar ôl clywed bod y taliadau hyn yn ddarostyngedig i gymalau neu gytundebau cyfrinachedd. Gallai'r rhain fod yn briodol mewn amgylchiadau eithriadol lle, er enghraifft, y gellai'r angen i ddiogelu cyfrinachedd fod yn gwbl gyfiawn. Fodd bynnag, nid yw'r arfer yn caniatáu'r natur agored a'r

tryloywder sydd eu hangen yn y sector cyhoeddus. Ni ddylid eu defnyddio fel mater o drefn er mwyn atal cyn-weithwyr rhag datgelu'r ffeithiau sy'n ymwneud â therfynu eu cyflogaeth na'u hatal rhag codi materion am y gwasanaethau a ddarperir gan eu cyn-gyflogwr (neu gau eu cegau).

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er budd tryloywder, fod yr Ombwdsmon yn ystyried a ellid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y cyfrifon mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau yn y dyfodol am ei rwymedigaethau posibl ac agweddau eraill ar ei ddatganiadau ariannol.

**Argymhelliad 33.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsman yn esbonio i'r Pwyllgor ei resymau dros wneud taliadau arbennig yn 2017-18 i gyn-aelodau o staff. Dylai hyn nodi pam yr oedd taliadau o'r fath yn ddarostyngedig i gymal cyfrinachedd.

# 5. Amgueddfa Cymru

## Y cefndir

**235.** Gosodwyd cyfrifon 2017-18 Amgueddfa Cymru (yr Amgueddfa) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Gorffennaf 2018 a chraffodd y Pwyllgor arnynt ar 22 Hydref 2018. Hwn oedd yr ail dro i'r Pwyllgor drafod cyfrifon yr Amgueddfa. Craffodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus arnynt gyntaf yn y Pedwerydd Cynulliad.

## Perfformiad Ariannol a Gweithredol

**236.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Amgueddfa beth oedd prif ddiben ei chyfrifon a pha gamau a gymerwyd i helpu pobl i'w deall.

**237.** Dywedodd yr Amgueddfa wrth y Pwyllgor fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gyfle enfawr iddi. Roedd, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi ceisio cysoni sut y mae'n gweithredu ac yn adrodd â'r Ddeddf. Er enghraifft, roedd wedi ceisio gwneud hyn drwy adolygu ei gweledigaeth, ei chyfraniad at Raglen Cyfuno Llywodraeth Cymru a'i gwaith ym maes iechyd a llesiant. Dywedodd yr Amgueddfa ei bod bellach yn gweithredu'n fwy effeithiol gyda Llywodraeth Cymru fel budd o'r Ddeddf.

**238.** I'r Amgueddfa, roedd llunio ei chyfrifon yn gyfle iddi adolygu cynnydd[101] ar ei thargedau. Roedd hefyd wedi ceisio gwneud y cyfrifon yn fwy hygyrch ac yn gliriach. Fodd bynnag, nododd Neil Wicks, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, fod cwmpas yr Amgueddfa ar gyfer gwneud newidiadau'n gyfyngedig oherwydd y canlynol:

> "…the format of these accounts is actually prescribed—so, first of all, through a statement of recommended practice and also the accounts direction that we receive from the Government. So, in essence, a lot of the content of it is prescribed."[102]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**239.** Mae'r mater ynghylch y fformat rhagnodedig yn pwysleisio'r pwynt cynharach yn yr adroddiad hwn, sef bod angen i Lywodraeth Cymru arwain y ffordd a phennu cyfarwyddyd i'r Cyrff a Noddir ganddi i wella eglurder, hygyrchedd a thryloywder wrth gyflwyno adroddiadau ariannol. Er bod yr

[101] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 10
[102] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 29

Amgueddfa wedi bod yn gweithio ar wneud ei chyfrifon a'i hadroddiadau blynyddol yn fwy hygyrch drwy gynnwys amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad, nid yw'n glir sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â nodau ei strategaeth 10 mlynedd a'r llythyr cylch gwaith a roddodd Llywodraeth Cymru iddi.

**240.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd gan yr Amgueddfa i gysoni ei chyfrifon â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r cyfrifon yn nodi prif amcanion yr Amgueddfa a'i rhaglenni allweddol. Hefyd, nid ydynt yn nodi perfformiad yr Amgueddfa yn erbyn yr amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei llythyr cylch gwaith na'r sylw a roddir i argymhellion o'r Adolygiad Thurley[103] (adolygiad a gomisiynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith i edrych ar lwyddiant, cydnerthedd a chynaliadwyedd Amgueddfa Cymru).

**241.** Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth yr Amgueddfa mai'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, ar y cyfan, sy'n pennu fformat a chynnwys ei chyfrifon. Mae hyn yn pwysleisio ymhellach argymhelliad y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru ei bod yn esbonio'r gofynion ar gyfer adrodd ar berfformiad i sicrhau y caiff gwybodaeth ddigonol a phriodol ei datgelu, a fydd yn golygu y gellir gwneud gwaith craffu effeithiol (y mae Argymhellion 17 a 18 o'r Adroddiad hwn yn cyfeirio atynt).

**242.** Rydym yn siomedig mai ychydig iawn o ddefnydd, neu ddim defnydd o gwbl, a wneir o ffeithluniau yng nghyfrifon yr Amgueddfa er mwyn cyfleu ei pherfformiad yn well. Rydym yn argymell bod yr Amgueddfa'n ystyried sut y gall adlewyrchu'r arfer gorau yn hyn o beth. Byddem hefyd yn disgwyl i ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru nodi agweddau ar yr arfer gorau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol, gan gynnwys defnyddio ffeithluniau.

**Argymhelliad 34.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa yn cydymffurfio â'r arfer gorau wrth adrodd ar ei pherfformiad ar sail nodau ac amcanion, gan ddefnyddio ffeithluniau i wella'r dull cyfathrebu a dealladwyedd.

## Staffio

### Arolwg Staff

**243.** Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Pedwerydd Cynulliad ei adroddiad ar graffu ar Gyfrifon 2014-15. Yn hwn, argymhellodd y Pwyllgor fod yr Amgueddfa'n mynd i'r afael â materion a godwyd

[103] Llywodraeth Cymru, Adolygiad Thurley o Amgueddfa Cymru, 7 Medi 2017 [Cyrchwyd 15 Chwefror 2019]

yn ei harolwg staff blaenorol ynghylch bwlio ac aflonyddu, a gynhaliwyd ym mis Medi 2014. Ym mis Chwefror 2016, ymatebodd yr Amgueddfa i'r argymhelliad hwn,[104] gan ddweud ei bod wedi datblygu cynllun gweithredu manwl ac y byddai'n cynnal arolwg staff arall yn 2017.

**244.** Esboniodd yr Amgueddfa i'r Pwyllgor na chynhaliodd arolwg staff yn 2017 fel y bwriadwyd yn wreiddiol ond ei bod, yn 2018, wedi cynnal holiadur diagnostig Buddsoddwyr mewn Pobl yn lle hynny. Rhannodd yr Amgueddfa ei chanlyniadau â'r Pwyllgor cyn ei sesiwn dystiolaeth.

**245.** Trafododd y Pwyllgor yr hyn roedd yr Amgueddfa wedi'i wneud i ymgysylltu â staff, a chael adborth ganddynt. Nodwyd bod canlyniadau holiadur diagnostig Buddsoddwyr mewn Pobl yr Amgueddfa, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018, yn dangos bod bron hanner (47 y cant) gweithlu'r Amgueddfa yn anghytuno i ryw raddau â'r datganiad, "I trust the leaders of my organisation". Gofynasom sut roedd yr Amgueddfa yn ymateb i hyn, a chanlyniadau eraill ei holiadur diagnostig Buddsoddwyr mewn Pobl.

**246.** Esboniodd David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Amgueddfa, fod yr Amgueddfa wedi bod mewn sefyllfa anodd o wrthdaro ddwy flynedd yn ôl, ond ei bod wedi buddsoddi amser, egni ac ymdrech i ailadeiladu perthnasoedd wedi hynny.

**247.** Dywedodd yr Amgueddfa wrth y Pwyllgor fod ei Hymddiriedolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr yr undebau llafur a'u hadrannau Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd yn cael gwybod am y safbwyntiau, y maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at drafodaethau'r Bwrdd.

**248.** Esboniodd Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu yr Amgueddfa, fod yr holiadur wedi bod yn adnodd defnyddiol i feincnodi a nodi'r meysydd i'w gwella. Esboniodd fod ei ganfyddiadau'n gyson ar draws safleoedd yr Amgueddfa.

**249.** Cydnabu fod ymddiriedaeth mewn arweinyddiaeth yn faes i'w ddatblygu a bod yr Amgueddfa wedi sefydlu grŵp strategol i arwain y gwaith o fynd i'r afael â materion. Roedd aelodaeth ei grŵp yn cynnwys aelodau o bob safle Amgueddfa a phob haen o'i strwythur sefydliadol, yn ogystal â Chynrychiolwyr Undebau Llafur.[105]

**250.** Gwnaethom ofyn pam roedd y cyfraddau ymateb i'r arolwg diagnostig Buddsoddwyr mewn Pobl wedi bod yn is ar safle Sain Ffagan yr Amgueddfa (50 y cant o'i chymharu â'r gyfradd ymateb gyffredinol, sef 69 y cant) a dywedwyd

---

[104] Craffu ar Gyfrifon 2014-15, Ymateb gan Amgueddfa Cymru, Chwefror 2016 (Saesneg yn unig)

[105] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 70-73

wrthym fod yr arolwg yn cyd-fynd â gwaith ailddatblygu sylweddol ar y safle a phan oedd staff yn brysur iawn yn gyffredinol. Esboniodd Nia Williams fod staff o raddau gwahanol yn Sain Ffagan wedi gwirfoddoli i fod ar grŵp llywio sy'n edrych ar ganlyniadau'r arolwg yn fanwl, gan gynnwys y gyfradd ymateb isel.

***Safbwynt y Pwyllgor***

**251.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu o glywed am y materion y tynnwyd sylw atynt gan weithlu'r Amgueddfa yn ei arolwg diagnostig Buddsoddwyr mewn Pobl, yn enwedig y rhai mewn perthynas ag arweinyddiaeth. Fodd bynnag, rydym yn croesawu ymrwymiad yr Amgueddfa i fynd i'r afael â hwy a nodi'r gwaith a wnaed hyd yn hyn. Rydym yn annog yr Amgueddfa i ddefnyddio canlyniadau'r arolwg yn gynhyrchiol a phwysleisio pwysigrwydd defnyddio'i adnoddau'n effeithiol wrth ymateb i'r materion allweddol.

## Absenoldebau staff

**252.** Adroddodd Cyfrifon 2017-18 yr Amgueddfa mai 5.08 y cant oedd ei chyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2017-18, sy'n llai nag yn 2016-17 (2016-17: 5.5 y cant). Nododd y Pwyllgor ei fod yn arfer cyffredin i gyrff adrodd ar absenoldeb oherwydd salwch o ran nifer y diwrnodau a gollwyd fesul gweithiwr. Mae hyn yn golygu y gellir cymharu â'r sector cyhoeddus ehangach.

**253.** Gan nad oedd Cyfrifon 2017-18 yn nodi'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch o ran nifer y diwrnodau a gollwyd, ar ôl y cyfarfod, gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth hon gan yr Amgueddfa. Yn ei hymateb, cadarnhaodd yr Amgueddfa mai 10.94 oedd nifer y diwrnodau cyfartalog a gollwyd oherwydd salwch fesul gweithiwr yn 2017-18. Mae hyn yn cymharu â 7.0 diwrnod gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul blwyddyn ar draws Gwasanaeth Sifil y DU, 8.5 diwrnod ar gyfer y sector cyhoeddus a 5.2 yn y sector preifat.[106]

**254.** Dywedodd yr Amgueddfa wrth y Pwyllgor am y camau a gymerodd i leihau ei chyfradd absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r naratif hefyd yn datgan bod rheolwyr llinell wedi cael hyfforddiant gloywi i fynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb uchel. Roedd hefyd wedi darparu hyfforddiant gloywi ynghylch rheoli presenoldeb i'r holl reolwyr llinell a gweithredu model Partner Busnes lle gweithiodd swyddogion Adnoddau Dynol gyda rheolwyr i fonitro materion presenoldeb a mynd i'r afael â hwy'n fwy rhagweithiol. Yn ogystal, roedd yr Amgueddfa wedi hyrwyddo nifer o fentrau llesiant i wella iechyd meddwl ei gweithlu, a nododd mai hwn yw'r achos absenoldeb mwyaf cyffredinol. Roedd yr

[106] Data Absenoldeb oherwydd Salwch y Gwasanaeth Sifil ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 [Cyrchwyd 15 Chwefror 2019]

Amgueddfa'n disgwyl i'w lefelau absenoldeb ostwng yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, sef 2018-19, o ganlyniad i'r camau hyn. Dywedodd, yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn hon, fod ei chyfradd absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng o 5.08 y cant i 3.4 y cant.[107]

***Safbwynt y Pwyllgor***

**255.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu o glywed bod lefel salwch staff yr Amgueddfa ar gyfer 2017-18 yn sylweddol uwch na chyfartaledd Gwasanaeth Sifil y DU a adroddwyd. Drwy weithredu mentrau llesiant a darparu hyfforddiant i reolwyr llinell, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith y mae'r Amgueddfa wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r mater. Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd parhau i adolygu hyn er mwyn sicrhau bod y prosesau presennol yn ddigonol wrth reoli'r sefyllfa a darparu'r cymorth mwyaf effeithlon ac effeithiol i'r staff.

**Argymhelliad 35.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n parhau i fonitro ei chyfradd absenoldeb staff yn fanwl, gan ddadansoddi lefelau absenoldeb staff i nodi achosion absenoldeb oherwydd salwch. Er mwyn galluogi cymhariaeth ehangach, dylai'r Amgueddfa sicrhau ei bod yn cyfrifo ac yn adrodd ei chyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn unol â'r sector cyhoeddus ehangach, gan ddatgelu cyfradd y diwrnodau, yn ogystal â chanrannau.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**256.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Amgueddfa am wybodaeth am gyfansoddiad ei gweithlu. Yn benodol, faint o bobl LGBT, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig oedd yn ymwneud â'r Amgueddfa. Gofynnwyd hefyd a oedd yr Amgueddfa'n llunio adroddiad cydraddoldeb blynyddol yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**257.** Dywedodd Neil Wicks wrth y Pwyllgor nad oedd yn llunio adroddiad cydraddoldeb blynyddol. Esboniodd:

> "… we measure annually the gender pay gap. We don't specifically produce a diversity report in that way…"[108]

**258.** Cadarnhaodd yr Amgueddfa, er ei bod wedi pennu amcanion cydraddoldeb, na fyddai'n adrodd arnynt tan y flwyddyn ddilynol. Ailadroddodd ei thystiolaeth gynharach ynghylch sut y mae ei gwaith diweddar yn y maes hwn hefyd wedi

[107] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 102

[108] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 44

ceisio cysoni ei hamcanion i fod yn gyson ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**259.** Esboniodd yr Amgueddfa ei bod wedi sefydlu fforwm amrywiaeth i geisio cynyddu amrywiaeth ei gweithlu. Rhannodd rai enghreifftiau diweddar lle'r oedd wedi ceisio ehangu ei rhaglenni cyhoeddus, megis gweithio gyda Mis Hanes Pobl Dduon, ei haelodaeth o Stonewall, a'i chefnogaeth i Pride Cymru. Nododd yr Amgueddfa mai ei hamcan canol tymor oedd dod yn fwy amrywiol o ran ei gweithlu a'r rhaglenni a gynhelir.

***Safbwynt y Pwyllgor***

**260.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camau a gymerwyd gan yr Amgueddfa i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth ac yn deall yr angen i sicrhau cynnydd drwy ei rhaglenni a'i gweithlu.

**261.** Mae llunio adroddiad cydraddoldeb strategol blynyddol yn unol â rheoliad 16 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ofyniad cyfreithiol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r Amgueddfa'n llunio adroddiad ac, felly, nad yw'n cydymffurfio â'i chyfrifoldeb statudol.

**262.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y camau a gymerir gan yr Amgueddfa i fynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn awgrymu bod yr Amgueddfa'n gwneud y trefniadau angenrheidiol i ymgymryd â'i dyletswydd statudol yn llwyr i adrodd ar ei hamcanion cydraddoldeb.

> **Argymhelliad 36.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n cydymffurfio, cyn gynted â phosibl, â'i gofyniad statudol i lunio adroddiad cydraddoldeb strategol blynyddol.

## Arbedion ac effeithlonrwydd

**263.** Yn dilyn ei waith craffu ar Gyfrifon 2014-15, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Pedwerydd Cynulliad fod yr Amgueddfa'n ystyried codi tâl ar gyfer gwasanaethau penodol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn credu na ddylai unrhyw dâl a godir gael effaith ar bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch mynediad am ddim i amgueddfeydd yng Nghymru. Argymhellodd y Pwyllgor ymhellach na ddylai refeniw ddisodli'r incwm y gallai'r Amgueddfa ei golli ar ffurf cymorth grant gan Lywodraeth Cymru ac y dylid cael tryloywder ynglŷn â sut y mae'n cael ei

ddefnyddio.[109] Yn sgil yr argymhellion hyn a chanfyddiadau'r Adolygiad Thurley,[110] gofynnodd y Pwyllgor sut y mae'r Amgueddfa yn cydbwyso ei hymrwymiad i fynediad am ddim a chodi tâl ar gyfer rhai arddangosfeydd.

**264.** Dywedodd David Anderson wrth y Pwyllgor fel a ganlyn:

> "I think we regard free admission for the core services of the museum as an absolutely essential tool."[111]

**265.** Ychwanegodd mai polisi'r Amgueddfa oedd ailfuddsoddi incwm ychwanegol yn y meysydd sydd fwyaf arwyddocaol o safbwynt budd cymdeithasol[112] ac y defnyddir creu incwm fel adnodd i helpu'r Amgueddfa i gyflawni ei nodau corfforaethol.

**266.** Clywodd y Pwyllgor fod yr Amgueddfa wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i weithio drwy'r argymhellion gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n ymwneud â chreu incwm. Hefyd, dywedodd yr Amgueddfa wrth y Pwyllgor ei bod wedi trafod – o ystyried y pwysau ar gyllid cyhoeddus – a fyddai'n fuddiol cael system rheoli perthnasoedd cwsmeriaid, yn ogystal â phenodi cyfarwyddwr masnachol.[113]

### Safbwynt y Pwyllgor

**267.** Mae'r Pwyllgor yn nodi tystiolaeth yr Amgueddfa o ran incwm, yn enwedig ei strategaeth fasnachol, o ystyried y bygythiad posibl yn y dyfodol o ostyngiad mewn cyllid cymorth grant. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad gan yr Amgueddfa o ran ei chynnydd wrth weithredu ei strategaeth. Dylid adrodd ar hyn, yn ogystal â'i pherfformiad yn erbyn ei hamcanion a chanfyddiadau'r adolygiad Thurley, yn ei chyfrifon yn y dyfodol.

**Argymhelliad 37.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn hyrwyddo tryloywder, fod yr Amgueddfa'n rhoi diweddariad i'r Pwyllgor o ran ei chynnydd wrth weithredu ei strategaeth fasnachol a'i pherfformiad yn ei herbyn yng nghyfrifon 2018-19.

---

[109] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2014-15, (Rhagfyr 2015)

[110] Argymhellodd hwn fod Llywodraeth Cymru yn symud i bolisi yn seiliedig ar y terfyn ar gyfer mynediad i'r Amgueddfa yn hytrach na pholisi ar sail modd.

[111] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 122

[112] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 123

[113] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 31

## Cynaliadwyedd

**268.** Rhannodd yr Amgueddfa ei barn am hunangynhaliaeth. Dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod wedi gosod paneli solar ar rai o'i safleoedd a newid i oleuadau LED. Dywedodd hefyd ei bod wedi cynnal arddangosfa'n ddiweddar, fel rhan o'i fforwm pobl ifanc, ar effeithiau defnyddio plastig. Nododd, yn dilyn hyn, ei bod wedi cynnwys targed yn ei hamcanion strategol i ddefnyddio llai o blastig.

***Safbwynt y Pwyllgor***

**269.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith i osod paneli solar ar safleoedd amrywiol yr Amgueddfa, a'i hymrwymiad i wella cynaliadwyedd. Fodd bynnag, rydym yn ansicr a yw'r camau hyn yn ddigon ac yn annog yr Amgueddfa i ystyried a allai ddod yn hunangynhaliol a defnyddio ei safle i hyrwyddo cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ledled Cymru.

> **Argymhelliad 38.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n adolygu ei mesurau amgylcheddol presennol, ac yn ceisio trafod ffyrdd eraill o wella ei chynaliadwyedd wrth sicrhau'r gwerth gorau am arian.

## Ôl-groniad gwaith cynnal a chadw

**270.** Ar adeg o bwysau ariannol parhaus, gofynnodd y Pwyllgor i'r Amgueddfa am ôl-groniad y rhaglen cynnal a chadw a blaenoriaethwyd gwaith yn erbyn hynny.

**271.** Clywodd y Pwyllgor mai iechyd a diogelwch oedd prif flaenoriaeth yr Amgueddfa, wedyn diogeledd, amddiffyn a diogelwch y cyhoedd. Rhannodd â'r Pwyllgor rai o'r enghreifftiau diweddar o waith brys ac annisgwyl y bu'n ofynnol iddi ei wneud. Roedd y rhain yn cynnwys atgyweiriadau ar ôl tân bach ar fwrdd cylched a gwaith i atgyweirio to oedd yn gollwng yn safle Parc Cathays.

**272.** Pan ofynnodd y Pwyllgor a yw'n fodlon bod y gwaith y mae angen ei wneud yn fforddiadwy yn y tymor canolig, dywedodd Neil Wicks fel a ganlyn:

> "I think we're satisfied that we're using the funds that we've been given for the highest priorities that we have."[114]

[114] Cofnod y Trafodion, 22 Hydref 2018, paragraff 218

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**273.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gan yr Amgueddfa gynllun ôl-groniad gwaith cynnal a chadw y mae'n ei gynnal yn ogystal â chadw arolygon cyflwr o'i hadeiladau a'i seilwaith. Caiff yr olaf ei goladu bob pum mlynedd.

**274.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi sut y mae'r Amgueddfa'n blaenoriaethu ei gwaith, gan gydnabod bod achosion lle y mae gwaith brys yn codi'n annisgwyl. Fodd bynnag, rydym yn bryderus ynghylch y risg o beidio â chymryd camau amserol i wneud gwaith arall. Byddem yn croesawu diweddariad gan yr Amgueddfa o ran ei chynllun ôl-groniad gwaith cynnal a chadw.

**Argymhelliad 39.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n rhoi diweddariad mewn perthynas â'i chynllun ôl-groniad gwaith cynnal a chadw presennol, yn enwedig wrth fynd i'r afael â materion y nodwyd eu bod yn risg uchel/sylweddol.

## Taliadau arbennig

**275.** Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2017-18, nododd yr Amgueddfa wybodaeth am ei rhwymedigaeth bosibl am chwe hawliad anaf personol a wnaed yn ei herbyn. Ar gyfer tri o'r achosion hyn, mae amcangyfrifon o'r swm tebygol sy'n ofynnol er mwyn setlo'r hawliad wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, mae Cyfrifon 2017-18 yn datgan nad yw rhwymedigaeth bosibl y tri arall yn hysbys.

### *Safbwynt y Pwyllgor*

**276.** Fel y nodwyd mewn adran gynharach o'r Adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod – er budd tryloywder – yn bwysig bod cyrff cyhoeddus yn rhoi digon o wybodaeth yn eu cyfrifon i esbonio'r sefyllfa a, thrwy hynny, wella dealltwriaeth a hwyluso gwaith craffu. Mae'r Pwyllgor yn nodi, wrth wneud datgeliadau o'r fath, fod angen i gyrff cyhoeddus fod yn ymwybodol o faterion sy'n gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio hyn fel sail dros beidio â rhoi dim gwybodaeth neu roi ychydig o wybodaeth yn unig.

**Argymhelliad 40.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Amgueddfa'n cynnwys digon o wybodaeth yn ei chyfrifon i wella dealltwriaeth a hwyluso gwaith craffu, yn enwedig o ran ei rhwymedigaethau posibl yn y dyfodol.

# Atodiad: Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn: www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15845

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 8 Hydref 2018 | Manon Antoniazzi, Comisiwn y Cynulliad |
| | Nia Morgan, Comisiwn y Cynulliad |
| | Suzy Davies AC, Comisiynydd ar gyfer Cyllideb a Llywodraethiant |
| | Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| | Katrin Shaw, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| | David Meaden, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| 15 Hydref 2018 | Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru |
| | David Richards, Llywodraeth Cymru |
| | Gawain Evans, Llywodraeth Cymru |
| | Peter Kennedy, Llywodraeth Cymru |
| | Peter Ryland, Llywodraeth Cymru |
| 22 Hydref 2018 | David Anderson, Amgueddfa Cymru |
| | Neil Wicks, Amgueddfa Cymru |
| | Nia Williams, Amgueddfa Cymru |